# Cyngor Sir Penfro
# Pembrokeshire County Council

## Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth Abergwaun

**Mabwysiadwyd Tachwedd 2016**

**Dr Steven Jones B.A.(Anrh),D.M.S., M.B.A., Ph.D., M.C.I.M.**
**CYFARWYDDWR DATBLYGU**

**Byrfoddau**

| | |
|---|---|
| AG | Ardal Gadwraeth |
| CDL | Cronfa Dreftadaeth y Loteri |
| ARh | Adeilad Rhestredig |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| CSP | Cyngor Sir Penfro |
| CDAH | Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol |
| NCT | Nodyn Cyngor Technegol - Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru |
| GCC | Gorchymyn Cadw Coed |
| DeddfCG&Th | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |

# Contents


Crynodeb Gweithredol ........ 5
Rhan 1: Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth ........ 9
1 Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth Abergwaun ........ 9
1.2 Cefndir ........ 10
1.3 Ardal Gadwraeth Abergwaun ........ 11
1.4 Pwrpas a Chwmpas y Gwerthusiad ........ 12
1.5 Methodoleg ........ 12
2. Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio ........ 14
2.1 Deddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol ........ 14
2.2 Polisi Cynllunio a Chanllawiau Lleol ........ 15
2.3 Strategaeth Gorfodi ........ 16
3. Diffinio Diddordeb Arbennig ........ 17
4 Asesu Diddordeb  Arbennig ........ 17
4.1 Lleoliad ........ 17
4.2 Datblygiad Hanesyddol ac Archeoleg: Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal ........ 18
4.3 Dadansoddiad Gofodol ........ 22
4.4 Dadansoddiad Cymeriad ........ 31
Ardal Nodwedd 1: Y Slade ........ 32
Ardal Nodwedd 2: Canol y Dref ........ 37
Ardal Nodwedd 3: Ardaloedd Preswyl ........ 44
4.5 Adeiladau'r Ardal Gadwraeth ........ 51
4.6 Crynodeb o Nodweddion yr Ardal Gadwraeth ........ 57
5. Adolygiad Ffiniau ac Argymhellion ........ 59
6. Crynodeb o'r Materion dan sylw ........ 61
7. Cynigion Rheoli ........ 63
8. Monitro ........ 66
Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Abergwaun ........ 68
1. Crynodeb o ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth ........ 68
Adnabod Materion Cadwraeth ........ 68

1.2 Materion cadarnhaol ac asedau ........ 70
1.3 Materion negyddol a phroblemau ........ 70
2. Canllawiau Polisi ac Egwyddorion Dylunio ........ 71
2.1 Egwyddorion Dylunio ........ 71
2.2 Cyd-destun Datblygiad yr Ardal Gadwraeth ........ 72
2.3 Polisi datblygu ac egwyddorion dylunio Ardal Gadwraeth ........ 73
2.4 Canllawiau dylunio er mwyn gwella adeiladau presennol ........ 73
2.5 Polisïau ar gyfer datblygiad newydd o fewn Ardaloedd Treftadaeth ........ 80
3. Canllawiau penodol ar gyfer adeiladau, safleoedd arwyddocaol a thir y cyhoedd 82
3.1 Dyluniad tir y cyhoedd ........ 82
4. Argymhellion Rheoli ........ 83
Gwneud penderfyniadau gan gynnwys rhestriad/rhestriad lleol, newidiadau i ffiniau a Chyfarwyddiadau Erthygl 4 ........ 83
4.1 Rhestru lleol yn yr Ardal Gadwraeth ........ 83
4.2 Ailasesu ffiniau’r Ardal Gadwraeth ........ 83
4.3 Cyfarwyddyd Erthygl 4 a Datblygiad a Ganiateir ........ 83
4.4 Monitro a Gorfodi: ........ 84
4.5 Deall Cadwraeth ........ 85
4.6 Anghenion Adnoddau ........ 85
Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ........ 85
4.8 Cynaliadwyedd ........ 86
5. Rhaglen Weithredu ........ 88
5.1 Adnoddau ar gyfer gweithredu yn yr Ardal Gadwraeth ........ 88
5.2 Crynodeb o’r Cynllun Gweithredu ........ 88
5.3 Monitro ........ 89
5.4 Adolygiad Ffurfiol ........ 89

Atodiad 1: Mapiau Ardal Gadwraeth 90

Atodiad 2 : Gwybodaeth ddefnyddiol 99

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli hwn wedi'u paratoi a'u cyfuno er mwyn diffinio cymeriad arbennig Ardal Gadwraeth Abergwaun, a hynny er mwyn helpu i gadw a gwella ei chymeriad, gan osod sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cynaliadwy i'r dyfodol.

ii Yn Rhan 1 ceir y  Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth, ac yn Rhan 2  ceir y Cynllun Rheoli, y cynigion a'r dulliau o weithredu a threfniadau ar gyfer monitro ac adolygu'r Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli.

iii Mae'r ddogfen hon yn ategu Cynllun Datblygu Lleol Sir Penfro (CDLl) 2013-2021, a bydd yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer unrhyw Gynllun Datblygu a fabwysiedir ar ôl hynny o safbwynt amddiffyn a gwella'r amgylchedd hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer penderfyniadau cynllunio a cheisiadau adeiladau rhestredig ynghyd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol.

**Rhoddir cyd-destun polisi i'r gwerthusiad gan:**

• **Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96** (para 20) yn datgan mai ansawdd lle ddylai fod yn brif ystyriaeth wrth nodi, gwarchod a gwella Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn dibynnu ar fwy nag adeiladau unigol. Cydnabyddir y gall cymeriad arbennig lle ddeillio o nifer o ffactorau, gan gynnwys: grwpiad adeiladau; eu graddfa a'u perthynas â mannau awyr agored, manylion pensaernïol, ac yn y blaen.

• Mae **Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 8,** Ionawr 2016 (para 6.5.17) yn datgan os bydd unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â'r amcan o gadw neu wella cymeriad neu olwg Ardal Gadwraeth, neu ei lleoliad, bydd rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.

iii Crynhoir isod yr elfennau allweddol sy'n cyfrannu at ddiddordeb arbennig a chymeriad Ardal Gadwraeth Abergwaun sydd angen eu diogelu a'u gwella.

- Hanes morwrol hir sydd ynghlwm â sefydlu'r porthladd.
- Nodweddion naturiol y tirwedd arfordirol a thirffurfiau naturiol sydd wedi dylanwadu ar ffurf y dref;
- Patrwm strydoedd canol oesol, hanesyddol sy'n dal yn amlwg yn y dref fodern;
- Tref farchnad hanesyddol

- Adeiladau amlwg gyda chymeriad pensaernïol nodedig.
- Golygfeydd pwysig i mewn i, allan o ac o fewn yr Ardal Gadwraeth.
- Cymysgedd amrywiol o arddull a math o adeiladu, gyda'r mwyafrif yn tarddu o’r 18fed a'r 19eg ganrif.
- Nifer o esiamplau ardderchog o adeiladau a therasau Fictoraidd a Sioraidd cymesur a chain
- Tair ardal nodwedd wahanol
- Enghreifftiau ardderchog o flaenau siopau hanesyddol

**Materion allweddol**

v Mae nifer o faterion allweddol wedi’u nodi fel materion sy'n cael effaith negyddol ar natur yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn sail ar gyfer y Cynigion Rheoli a amlinellir yn Rhan 7 o'r ddogfen hon ac sydd wedi'u crynhoi isod.

***i Safleoedd ac adeiladau negyddol / niwtral***

Mae nifer o adeiladau a safleoedd 'negyddol' sy'n tynnu oddi wrth gymeriad a golwg arbennig yr Ardal Gadwraeth. Yn aml, nid yw datblygiadau mwy modern yn cyfrannu llawer i gymeriad yr ardal, naill ai o safbwynt ei chadw na’i gwella.

ii ***Colli manylion pensaernïol a mân addasiadau i adeiladau hanesyddol***

Mae'r mwyafrif o’r adeiladau sydd heb ei rhestru - a llawer o'r rhai rhestredig - yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u heffeithio'n negyddol gan iddynt fod wedi colli manylion pensaernïol a deunyddiau adeiladu gwreiddiol.

***iii Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau (Adeiladau mewn Perygl)***

Mae rhai o'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth yn dangos arwyddion o ddirywiad oherwydd diffyg cynnal a chadw ac mae angen monitro’u cyflwr a blaenoriaethu cyllid yn unol â hynny.

***iv Rheoli datblygiad newydd***

Mae llawer o ddatblygiadau modern nad ydynt yn cyd-fynd â chymeriad hanesyddol a golwg yr Ardal Gadwraeth.

***v Ardaloedd Tir y Cyhoedd***

Mae llawer o enghreifftiau lle mae ardaloedd cyhoeddus wedi cael eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal yn wael. Mae manylion hanesyddol gwreiddiol wedi cael eu

dileu ac mae'r dulliau atgyweirio a'r deunyddiau newydd yn amhriodol neu'n anghydnaws i gryn raddau. Mae'r holl barcio ceir ar hyd y strydoedd mewn rhannau o'r Ardal Gadwraeth yn cael effaith andwyol ar ei chymeriad.

***vi  Ardaloedd agored/gwyrdd, tirlunio a rheoli coed***

Ychydig iawn, os o gwbl, o dirlunio sydd ar lawer o'r strydoedd ac ardaloedd o fewn yr Ardal Gadwraeth. Er gwaetha'r ffaith fod yr Ardal Gadwraeth yn drefol ei naws gan fwyaf, gallai tirlunio addas gynnig cyfleoedd i wella nifer o'r mannau cyhoeddus a'r strydoedd drwy ychwanegu ansawdd a lliw a chynyddu bioamrywiaeth.

vii ***Blaenau siopau, arwyddion a hysbysebion***

Mae nifer o flaenau siopau traddodiadol wedi'u difetha gan newidiadau ansensitif

neu arwyddion anaddas.

**Rhan 2: Mae'r Cynllun Rheoli** yn nodi materion Ardaloedd Cadwraeth cyfredol ac yn nodi cynigion rheoli a threfniadau ar gyfer eu gweithredu, gyda'r camau canlynol wedi eu nodi ar gyfer gweithredu buan:

**Polisi a Strategaeth Cynllunio:**
• CSP i fabwysiadu Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth Abergwaun;

**Cyfranogiad y gymuned**:
• Hyfforddi a Datblygu Staff Cadwraeth;
- Briffio Aelodau a Swyddogion;

• Cynyddu'r ymwybyddiaeth o gadwraeth;
• Datblygu gwefan Cadwraeth CSP;
• Cyhoeddi Bwletin(au) Cadwraeth Abergwaun; a
• Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth Abergwaun i fod ar gael yn lleol.

**Mesurau cynllunio**:
• Cwblhad o'r Rhestr Leol ddrafft i fod yn sail wybodaeth i'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig;
• Gweithredu Strategaeth Adeiladau mewn Perygl ar gyfer yr Adeiladau Rhestredig hynny sydd mewn perygl neu'n fregus
• Nodi Ardaloedd Archeolegol Sensitif, fel y bo'n briodol

**Fframwaith ar gyfer Safonau Dylunio*:***

• Paratoi rhaglen ar gyfer paratoi nodiadau cyfarwyddyd cynllunio ychwanegol ar faterion cadwraeth;

• Sicrhau bod cyfleoedd am fesurau gorfodi, a'u pwysigrwydd, yn cael eu deall a'u gweithredu ledled CSP;

• Hyrwyddo Nodiadau Canllawiau Cynllunio a 'Cynnal a Chadw!' Cadw, ar y wefan

• Paratoi briffiau datblygu penodol ar gyfer  safleoedd, lle bo hynny'n briodol

# Rhan 1: Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth

## 1 Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth Abergwaun

### 1.1 Cyflwyniad

1.1.1. Mae Ardal Gadwraeth Abergwaun, a ddynodwyd yn 1976, yn cydnabod diddordeb pensaernïol a hanesyddol canol hanesyddol y dref, sydd wedi datblygu o gwmpas ei leoliad strategol yn Abergwaun.

1.1.2 Diffinnir Ardaloedd Cadwraeth, a ddynodwyd o dan Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (ARh & AC) 1990, fel ardaloedd "... *o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, sydd â chymeriad y mae'n ddymunol ei gadw neu wella*"[1] .

1.1.3 Mae'r dynodiad yn amddiffyn yr ardal yn ei chyfanrwydd, adeiladau/casgliadau o adeiladau, yr ardaloedd rhyngddynt a choed. Gall amddiffyniad ychwanegol fod yn addas drwy'r defnydd o Gyfarwyddyd[2] ar gyfer rhan o'r Ardal Gadwraeth, a elwir yn Gyfarwyddyd Erthygl 4. Mae Cyfarwyddyd o'r fath yn dileu hawliau datblygu penodol i newid neu ymestyn adeiladau penodol a thrwy hynny felly amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol ymhellach.

1.1.4 Mae'r gwerthusiad hwn yn diffinio ac yn cofnodi cymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig Ardal Gadwraeth Abergwaun, yn ystyried materion cyfredol, y cyd-destun statudol a pholisi cyfredol ac yn nodi cyfleoedd i wella a darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a chyfranogiad y gymuned leol wrth ei weithredu. Mae'n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, *'i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella*[3]*'* ac, '*wrth wneud penderfyniad ar gais am ddatblygu ...... rhoddir sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu*

[1] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

[2] Gwnaed dan Erthygl 4 o'r GPDO 1995, a gadarnhawyd ar 28 Mehefin 2010

[3] Adran 71 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

*olwg yr ardal honno*[4],' sydd yn rhoi sail gadarn ar gyfer asesu ceisiadau am ddatblygu a chynigion ar gyfer gwelliannau o fewn ardal Gadwraeth Abergwaun.

1.1.5 Rhoddir y cyd-destun statudol a pholisi ar gyfer y gwaith gan:

• Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990[5]

• Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 1995 (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

• Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8, 2016

• Cylchlythyr 61/96[6] a Chylchlythyr 1/98[7]

• Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro (CDLl) 2013-2021

**1.2 Cefndir**

1.21 Crëwyd Ardaloedd Cadwraeth gan Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967 pan benderfynwyd nad oedd rhestru adeiladau hanesyddol yn unigol yn ddigon i ddiogelu grwpiau o adeiladau, sydd, er nad ydynt wedi'u rhestru'n unigol, yn cyfrannu at gymeriad y lle cyfan a'u lleoliad. Sylweddolwyd bod y mannau rhwng adeiladau a choed hefyd yn elfennau pwysig. Penderfynwyd bod yr holl ardaloedd hyn i'w gwarchod a'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth.

1.2.2 Dylai dynodiad Ardal Gadwraeth gael ei hystyried fel y prif fodd o gydnabod, diogelu a gwella hunaniaeth mannau sydd â chymeriad arbennig. Dylai ansawdd y lle fod yn brif ystyriaeth wrth nodi Ardaloedd Cadwraeth er na ellir cael un fanyleb gyffredin ar gyfer yr holl Ardaloedd Cadwraeth. Nid yw dynodiad Ardal Gadwraeth yn rhwystro newidiadau i adeiladau na'r ardal o'u cwmpas yn y dyfodol. Mae'n golygu, fodd bynnag, bod rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol, wrth ystyried ceisiadau cynllunio, gan gynnwys y rhai sydd y tu allan i Ardal Gadwraeth ond a fyddai'n effeithio ar leoliad yr Ardal, ystyried yn drylwyr a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn "cadw neu'n gwella cymeriad neu olwg yr Ardal Gadwraeth ".

[4] Adran 72 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

[5] a ddisodlodd yr hen Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967

[6] Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

[7] Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

1.2.3 Mae'r Ddeddf bellach wedi'i hymgorffori a’i ehangu i mewn i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990 sy'n rhoi sail statudol ar gyfer rheolaeth gynllunio o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i adolygu’u mannau dynodedig yn rheolaidd, i ddynodi ardaloedd newydd os yn briodol ac yn dilyn dynodiad, lunio a chyhoeddi cynigion diogelu a gwella, ac i ddefnyddio’u pwerau cynllunio ar gyfer diogelu a gwella.

1.2.4 Fel arfer, dynodir Ardal Gadwraeth ar sail asesiad manwl o gymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig yr ardal. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu hadnabod fel Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth.

1.2.5 Mae Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth yn bwysig ar gyfer yr awdurdod lleol, ar gyfer datblygwyr a'r cyhoedd. Gellir eu defnyddio ar y cyd â pholisïau a chanllawiau cynllunio presennol; gallant gynorthwyo gyda rheolaeth barhaus Ardaloedd Cadwraeth, ffurfio sail ar gyfer rhaglenni gwella, a darparu sail gadarn, a ellir ei hamddiffyn ar apêl, ar gyfer polisïau cynllun lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu. Mae gan Werthusiadau hefyd  werth fel dogfennau addysgol a dogfennau gwybodaeth ar gyfer y gymuned leol.

**1.3 Ardal Gadwraeth Abergwaun**

1.3.1 Mae gan Sir Benfro (ac eithrio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) 24 o Ardaloedd Cadwraeth, gydag un ohonynt yn Abergwaun. Dynodwyd Ardal Gadwraeth Abergwaun gan yr hen Sir Benfro yn 1976. Mae dwy Ardal Gadwraeth yn Abergwaun, un yn Nhref Abergwaun (yr adroddiad hwn), ac un yng Nghwm Abergwaun (gweler adroddiad ar wahân).

1.3.2  Nid yw  Ardaloedd Cadwraeth Abergwaun wedi cael eu hamddiffyn yn y gorffennol dan Gyfarwyddyd Erthygl 4. Byddai hyn yn dileu hawliau datblygu sydd eisoes yn bodoli, ac yn golygu bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer atgyweiriadau ac estyniadau, er mwyn sicrhau bod dulliau a deunyddiau adeiladau traddodiadol yn cael eu defnyddio. Byddai hyn yn fodd o atal erydiad a cholli manylion pensaernïol hanfodol sy'n rhoi statws 'ardal o ddiddordeb arbennig' i’r Ardal Gadwraeth. Ceir rhagor o wybodaeth am y posibilrwydd o Gyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn Rhan 2 (adran 4.3) yr adroddiad hwn.

## 1.4 Pwrpas a Chwmpas y Gwerthusiad

1.4.1 Wedi ei dynodiad yn 1976, cydnabuwyd Ardal Gadwraeth Abergwaun fel ardal o gymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig sydd angen ei chadw a'i gwella.

1.4.2 Diben yr astudiaeth hon yw cynnal gwerthusiad o gymeriad [8] yr Ardal Gadwraeth hon, fel rhan o raglen dreigl y Cyngor Sir o adolygu Ardaloedd Cadwraeth. Mae'n disgrifio nodweddion pensaernïol a hanesyddol arbennig yr Ardal Gadwraeth ac yn darparu dadansoddiad manwl o'i chymeriad a'i golwg, gan ddod i'r casgliad bod cyfiawnhad amlwg dros ei dynodiad fel Ardal Gadwraeth.

1.4.3 Mae'r Gwerthusiad Cymeriad yn cefnogi polisïau Cynllun Datblygu Lleol Sir Penfro. Rhaid ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu a phenderfynu ar geisiadau am ddatblygu o fewn yr Ardal Gadwraeth, ac fel cymorth i lywio ei rheolaeth yn y dyfodol.

Bydd y ddogfen hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Gall datblygiadau anghyfreithlon arwain at gymryd camau gorfodi.

## 1.5 Methodoleg

> Dylid ystyried [Gwerthusiad Ardal Gadwraeth] fel y cam cyntaf mewn proses ddeinamig, gyda'r nod o warchod a gwella cymeriad a golwg yr ardal ddynodedig - a darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cynaliadwy am ei dyfodol drwy ddatblygiad cynigion rheoli.
>
> (former English Heritage 2006[9])

1.5.1 Nod y Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth hwn yw ail-asesu'r ardal ddynodedig o ran adolygu ei ffiniau a chofnodi'i diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig mewn ffordd gryno, gan ganolbwyntio ar yr elfennau pwysig o gymeriad yr ardal. Arfarniad hwn yn ystyried yr Ardal Gadwraeth ' Conservation Area

[8] yn dilyn y canllawiau cyffredinol a nodir yn ' Understanding Place: Conservation Area Designation, Appraisal and Management ', former English Heritage, 2011

[9] Yn 2015 newidiodd Historic Buildings and Monuments Commission for England ei enw o English Heritage i Historic England.

Designation, Appraisal and Management' Historic England 2016 as a guide, and the following objectives

Bydd y gwerthusiad hwn yn cael ei gynnal gyda'r amcanion canlynol mewn golwg:

I. Amlinellu ac egluro datblygiad hanesyddol ac esblygiad yr ardal;
II. Diffinio a dadansoddi cymeriad arbennig a nodweddion diddorol yr Ardal Gadwraeth, ac o'i chwmpas, o ran ei phensaernïaeth, topograffeg, ardaloedd a thirwedd agored, a'r berthynas rhyngddynt;
III. Ar sail yr asesiad hwn, adolygu ffiniau'r Ardal Gadwraeth bresennol, a
IV. Nodi cyfleoedd posibl a chynigion rheoli ar gyfer gwarchod a gwella'r ardal.

# 2. Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio

## 2.1 Deddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol

2.1.1 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (Cymru a Lloegr) wedi atgyfnerthu deddfwriaeth gadwraeth gynharach.

2.1.2 Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ddynodi fel Ardaloedd Cadwraeth "unrhyw ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ble mae'n ddymunol cadw neu wella ei chymeriad neu olwg".

2.1.3 O dan Adran 69 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i adolygu Ardaloedd Cadwraeth o bryd i'w gilydd drwy baratoi a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella Ardaloedd Cadwraeth ac i ystyried a oes galw am ddynodiadau pellach o Ardaloedd Cadwraeth. Mae'n werth nodi y cyflwynwyd y Mesur Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) gan Lywodraeth Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar  Mai 1, 2015[10].

2.1.4 Dylai'r Gwerthusiad hwn gael ei ddarllen ar y cyd â pholisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau megis Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8 (Ionawr 2016), a gryfhawyd gan Gylchlythyr 61/96 a Chylchlythyr 1/98. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi cyngor ar ddynodi Ardaloedd Cadwraeth ac yn arbennig, yn rhoi canllawiau penodol ar gyfer asesu eu diddordeb arbennig.

2.1.5 Mae Cylchlythyr 61/96 (para 20) yn datgan mai ansawdd lle ddylai fod yn brif ystyriaeth wrth adnabod, gwarchod a gwella Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn dibynnu ar fwy nag adeiladau unigol. Cydnabyddir y gall cymeriad arbennig lle ddeillio o nifer o ffactorau, gan gynnwys: grwpiad adeiladau; eu graddfa a'u perthynas â mannau awyr agored; manylion pensaernïol; ac yn y blaen.

2.1.6 Mae'r cyd-destun presennol ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir yng Nghymru ym Mholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8 sy'n rhoi arweiniad penodol ar gyfer dynodi, rheoli cadarnhaol ac adolygu Ardaloedd Cadwraeth. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro rôl awdurdodau cynllunio lleol wrth lunio polisïau Ardal Gadwraeth a gweithredu  swyddogaethau rheoli datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth. Rhoddir sylw penodol i baratoi gwerthusiadau cymeriad Ardaloedd Cadwraeth a all

[10] Ym mis Tachwedd 2015, roedd y Mesur yn ystod Cyfnod 2 'ystyriaeth fanwl gan Bwyllgor y Bil.

gynorthwyo awdurdodau cynllunio wrth iddynt weithredu'u swyddogaethau cynllunio a rheoli datblygu.

2.1.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8 (para 6.5.17) yn datgan os byddai unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â'r amcan o gadw neu wella cymeriad neu olwg Ardal Gadwraeth, neu ei lleoliad, yna y byddai rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.

2.1.8 Ategir Polisi Cynllunio Cymru gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN). Mae 'TAN 12: Dylunio' yn berthnasol i Ardaloedd Cadwraeth gan ei fod yn amlinellu nifer o amcanion dylunio da, gan gynnwys yr angen am i ddatblygiad  ymateb i gymeriad a chyd-destun.

**2.2 Polisi Cynllunio a Chanllawiau Lleol**

2.2.1 Bydd y Gwerthusiad yn cryfhau polisïau drwy ddarparu rhagor o fanylion am yr elfennau arbennig sy'n rhoi ei chymeriad i'r Ardal Gadwraeth, ac felly mae'n darparu sail gadarn ar gyfer asesu ceisiadau am ddatblygu o fewn Ardal Gadwraeth Abergwaun. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r fframwaith polisi cynllun datblygu ehangach a gynhyrchwyd gan y Cyngor Sir.

2.2.2 O ran polisi cynllunio lleol sy'n berthnasol i'r gwerthusiad hwn, mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Sir Benfro (CDLl) ym mis Chwefror 2013 ac ynddo nodir polisïau'r Cyngor ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol. O bwysigrwydd arbennig mae'r polisïau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol ac yn arbennig, Ardaloedd Cadwraeth, megis:

- SP 1 Datblygu Cynaliadwy
- SP14 Trefi Hwb
- SP 16 Cefn Gwlad
- GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol
- GN.2 Dylunio Cynaliadwy
- GN.3 Isadeiledd a Datblygiadau Newydd
- GN.4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a charbon-isel
- GN.11 Addasu neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol
- GN.37 Amddiffyn a Gwella Bioamrywiaeth
- GN.38 Amddiffyn a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol

## 2.3 Strategaeth Gorfodi

2.3.1 O ran gweithredu'n uniongyrchol o fewn Ardal Gadwraeth, mae'r pwerau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn cynnwys:

• Camau gorfodi yn erbyn datblygiad heb ei awdurdodi - hysbysiadau torri rheolau cynllunio / hysbysiadau torri amodau / hysbysiadau gorfodi / hysbysiadau terfynu / a gwaharddebau;

• Cyflwyno hysbysiadau Atgyweirio, Gwaith Brys ac Adran 215[11];

• Gorchmynion Caffaeliad Gorfodol;

• Hysbysiadau Cadwraeth Adeilad sy'n ymestyn rheolaeth Adeilad Rhestredig dros adeiladau heb eu rhestru am gyfnod dros dro; ac

• Adnabod a dynodi Ardaloedd Archeolegol Sensitif fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol - dylai dynodiad o'r fath sicrhau ystyriaeth gynnar i faterion archeolegol posibl.

2.3.2 Mae'n rhaid ystyried adeiladau a safleoedd sydd y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, ond sy'n ffinio â'r ardal, fel rhan o'i lleoliad, ac felly mae angen defnyddio ystyriaethau cynllunio tebyg.

[11] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

# 3. Diffinio Diddordeb Arbennig

3.1 Er nad yw’n rhestr holl gynhwysfawr, daw’r gwerthusiad hwn i'r casgliad bod arbenigedd Ardal Gadwraeth Abergwaun yn deillio o'r nodweddion allweddol canlynol:

- Hanes morwrol hir, cynhenid sydd ynghlwm â sefydlu'r harbwr.
- Safle strategol o ran cysylltiadau ag Iwerddon.
- Nodweddion naturiol y safle arfordirol dramatig.
- Safle’r farchnad ganoloesol yn y canol ac, yn ddiweddarach, datblygiad patrwm o strydoedd yn ymestyn o’r canol.
- Yr harbwr cysgodol a’r dyffryn yng nghysgod y penrhyn.
- Adeiladau amlwg gyda nodweddion pensaernïol nodedig.
- Golygfeydd pwysig i mewn i, allan o ac o fewn yr Ardal Gadwraeth.
- Cymysgedd amrywiol o arddull adeiladu, gyda'r mwyafrif yn tarddu o’r 17eg, 18fed a'r 19eg ganrif.
- Adeiladau Rhestredig ac adeiladau eraill sy’n cyfrannu at ddiddordeb a chymeriad y strydwedd.
- Blaenau siopau hanesyddol
- Topograffeg eithafol yn gwahanu Tref Abergwaun oddi wrth Gwm Abergwaun.
- Strydoedd culion, hanesyddol yng nghanol i dref, gyda lonydd bychain a llwybrau’n eu cysylltu
- Manylion pensaernïol amlwg yn y dref.

# 4 Asesu Diddordeb  Arbennig

## 4.1 Lleoliad

4.1.1 Saif y dref wrth geg yr afon Gwaun ar arfordir gogleddol Sir Benfro yn ne orllewin Cymru, 16 milltir i'r gogledd o dref sirol Hwlffordd, yn agos i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac o fewn tafliad carreg i’r arfordir.

4.1.2 Mae’r dref ar ochr ddwyreiniol  Penrhyn Pencaer a’r safle hwn yw’r prif reswm am ei ddatblygiad fel porthladd, canolfan adeiladu llongau a phorthladd masnachol.

4.1.3 Mae'r Ardal Gadwraeth tua 18.35 hectar.  Mae’r Gwerthusiad Cymeriad hwn yn dadansoddi a gwerthuso cymeriad yr Ardal Gadwraeth ac yn asesu os oes angen unrhyw newidiadau i’r ffiniau, ac yna’n argymell sut y dylid rheoli’r ardal yn y dyfodol.

### *Cymeriad cyffredinol a chynllun*

4.1.4 Mae'r Ardal Gadwraeth yn drefol yn bennaf o ran natur, ac mae'n cynnwys craidd hanesyddol masnachol y dref, sef y Sgwâr, gyda bloc tynn o eiddo preswyl llai i'r dwyrain, a therasau hir o eiddo o boptu tair o'r prif strydoedd sy'n ymestyn o ganol y dref. Mae llawer o gymeriad y dref yn tarddu o'i safle ar yr arfordir, yr amrywiaeth eang o ran oedran, arddull, perthynas adeiladau â'i gilydd, eu dwysedd, maint a lliw, y toeon, patrwm y strydoedd cul ac amrywiad o led, ( h.y. cul ger y canol ac yna'n lledu wrth ymestyn o'r canol), a'r nifer o gyfleoedd sydd yn y dref ar gyfer naill ai olygfa o'r môr neu banorama arfordirol.

### *Lleoliad y tirwedd*

4.1.5 Mae'r dref yn ymledu ar draws rhannau uchaf Penrhyn Pencaer, ac yn cynnwys ardal o lethr arfordirol a dyffryn a adnabyddir fel y Slade, sy'n rhedeg tua'r dwyrain i lawr llethr serth o ben Penslade at lan y dŵr gyferbyn â'r habwr ac anheddiad Cwm Abergwaun, sydd ar lan ogleddol aber yr Afon Gwaun. Mae tref Abergwaun a hen ardaloedd Cwm Abergwaun yn cael eu cysgodi'n ddaearyddol gan Benrhyn Pencaer, ac maent ar yr un pryd yn cael eu gwahanu a'u cysylltu gan lethr serth iawn sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin o'r bont garreg ar draws yr afon yng Nghwm Abergwaun i fyny at Main Street a'r Sgwâr yn Abergwaun.

4.1.6 Golyga'r topograffi bod y ffordd o'r de orllewin ar hyd y Stryd Fawr a'r ffordd o'r de ar hyd Kensington Street ar lethrau graddol i lawr tuag at ganol y dref, a cheir golygfeydd o'r mynyddoedd yn y pellter a'r môr i'r gogledd.

4.1.7 Mae ochrau llechweddog y Slade ac o gwmpas Bank Terrace yn goediog gan fwyaf gyda chlystyrau tal o hen goed sydd wedi eu teneuo mewn mannau. Mae gweddill y llethr arfordirol, sy'n cynnwys Llwybr y Glannau a chysylltiadau â'r dref wedi'i orchuddio â glaswellt, prysgwydd, eithin, drain gwynion, eiddew, ac ati yn cael ei gynnal ar sail ad hoc gan y Cyngor[12].

## 4.2 Datblygiad Hanesyddol ac Archeoleg: Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal

### Llychlynwyr - 10fed Ganrif

4.2.1 Ystyr yr enw Abergwaun yw ceg yr Afon Gwaun. (daw'r Saesneg 'Fishguard' o'r hen Lychlyneg *fiskigarőr* sy'n golygu 'lloc dal pysgod'). Roedd y bae hwn yn adnabyddus cyn belled yn ôl, ac o bosibl, cyn oes y Rhufeiniaid fel man diogel i angori, ac mae darnau o arian Rhufeinig wedi'u darganfod yn yr ardal, yn ôl y sôn

[12] Asesiad Ecolegol llwybr arfordirol Llwybr y Glannau, Capita Symonds, Mehefin 2005

(Fenton). Tra bod ardal Abergwaun yn nodedig am ei diffyg olion Rhufeinig, darganfuwyd dodecahedron efydd o’r 2-4 ganrif OC yn Abergwaun. Mae gan y dodecahedron ddeuddeg wyneb gyda thwll ymhob wyneb o ddiamedrau amrywiol. Mae ei defnydd yn anhysbys. Yn ystod cyfnod y Llychlynwyr bu nifer cynyddol o gyrchoedd ar arfordir Cymru; yn niwedd y 10fed ganrif daeth safleoedd masnachu ac aneddiadau Llychlynnaidd i'r amlwg yn yr ardal, ac fe sefydlwyd porthladd Abergwaun rhwng 950-1000 OC.

**12fed -17eg ganrif**

4.2.2 Meddiannwyd Abergwaun gan y Normaniaid yn ystod y 12fed ganrif ac roedd yn un o fwrdeistrefi’r Mers. Roedd Arglwyddi'r Mers yn annog mewnfudo o'r holl freniniaethau Norman-Angywaidd, ac yn annog masnach o borthladdoedd "hafan deg"  fel Caerdydd. Yn 1603 cafodd ei disgrifio fel un o bump o fwrdeistrefi Sir Benfro a gai eu goruchwylio gan brif ynad neu warden porthladd. Prif rôl y warden oedd ymgynghorydd ariannol, yn debyg iawn i swyddog cyllid a thollau heddiw.

4.2.3 Mae rhanbarth Abergwaun yng nghantref hanesyddol Cemais, sy’n rhan o dalaith Dyfed, yn Nhywysogaeth hanesyddol y Deheubarth.

4.2.4 Gorweddai’r setliad Normanaidd ar hyd yr hyn sy'n awr yn Stryd Fawr rhwng yr eglwys yn y pen gogleddol a gweddillion mwnt Normanaidd yn y pen deheuol. Credir bod waliau castell o gwmpas y dref i’w diogelu yn wreiddiol, ond nid oes unrhyw arwydd ohonynt bellach.

4.2.5 Y prif reswm am ddatblygiad llwyddiannus Abergwaun oedd ei leoliad cysgodol ar gyfer cychod pysgota a llongau masnach yn gweithio’n Sianel San Sior, a allai deithio i fyny i Abergwaun ar wyntoedd deheuol os na allent lanio yn Aberdaugleddau. Hefyd, safle delfrydol y porthladd cysgodol ar gyfer hwylio am Iwerddon. Datblygodd Abergwaun yn dref farchnad ar gyfer prynnu a gwerthu nwyddau a chynhyrch y tiroedd cyfagos, pysgod lleol niferus, ac i allforio deunyddiau a chwarelwyd, yn ogystal â brethyn a nwyddau lledr a gynhyrchwyd yn lleol.

**18fed Ganrif**

4.2.6 Datblygodd masnachu morol ac arfordirol yn gyflym yn ystod y cyfnod hwn, a chyrhaeddodd adeiladu llongau, gyda'i grefftau cysylltiedig, ei anterth gan ddod â chyfoeth a thwf cyflym i stoc dai’r dref.

4.2.7 Mae llawer o'r eiddo yng nghanol y dref yn tarddu o'r 18fed ganrif, ac yno y byddai busnes a phob math o fasnachu’n digwydd. Roedd llety i’w gael yno, ynghyd â phob math o fusnesau a sefydlwyd i gwrdd ag anghenion y gymuned ffermio, yr ymsefydlwyr, a theithwyr a masnachwyr môr.

4.2.8 Datblygwyd gwaelod y Slade fel ardal adeiladu cychod a sefydlwyd melin lifio yno ar ddechrau'r 19eg ganrif. Y Slade oedd y brif ddolen gyswllt rhwng y dref a glan y dŵr, lle gallai cychod masnach lwytho a dadlwytho ar lanw isel a nwyddau gael eu cario gan geffyl a throl i fyny i ganol y dref.

4.2.9 Yng nghanol y 18fed ganrif sefydlodd Benjamin Williams waith gwneud rhaffau yng nghyffiniau’r hyn a elwir bellach yn Ropewalk, a byddai’r rhaffau  mwy o faint yn cael eu tynnu o Ropeyard Lane i lawr y Ropewalk, ar draws y Wesh ac i lawr ar hyd y Slade, i’w hymestyn a’u straenio.

4.2.10 Mae glan y dŵr yng ngwaelod y Slade yn gysylltiedig â'r hen harbwr a chwareli Pistyll Hotch, a byddai deunyddiau a gloddiwyd, a nwyddau eraill a gynhyrchwyd yn lleol megis glo, brethyn, crochenwaith, rhaff, ac ati, yn cael eu cludo gyda chert ar hyd y draethlin, i’w llwytho ar gychod.

4.2.11 Mae Abergwaun yn enwog am ddigwyddiad hanesyddol penodol. Yn ystod Rhyfel y Glymblaid Gyntaf ym 1797 bu ymosodiad milwrol aflwyddiannus ar Abergwaun gan Weriniaeth Gyntaf Ffrainc. Dyma ‘Laniad y Ffrancod yn Abergwaun’.

4.2.12 Gorfodwyd y dref i ymladd yn erbyn grym 1400 o ddynion gyda dim ond byddin fechan, yn cynnwys tua 400 o fenywod yn gwisgo’u gwisg Gymreig o glogynnau coch a hetiau tal. Mae'n debyg eu bod wedi rhoi’r argraff o rym llawer mwy, o bell, ac yn ôl y chwedl, llwyddodd un fenyw, Jemima Nicholas, i ddal rhai o'r Ffrancwyr ar ei liwt ei hunan. Mae tapestri yn hongian yn Neuadd y Dref i gofio'r achlysur.

**19eg a'r 20fed Ganrif**

4.2.13 O ganlyniad i adeiladu'r rheilffordd a datblygiad terfynell y fferi yn Wdig roedd angen rhagor o dai, siopau, ysgolion, eglwysi, ac ati, ar gyfer y mewnlifiad newydd o weithwyr ac ymsefydlwyr.

4.2.14 Yn gynnar yn yr 20fed ganrif crebachodd cyflogaeth draddodiadol mewn adeiladu cychod a'i chrefftau cysylltiedig, ffermio, cynhyrchu brethyn, mwyngloddio, pysgota a chwarela, drwy'r sir, ac ar ôl yr ail ryfer byd daeth ffyniant economaidd i'r ardal yn sgil datblygiadau diwydiannol a chynnydd yn symudedd y boblogaeth.

4.2.15 Dechreuodd gweithgareddau hamdden a thwristiaeth ddatblygu, gwellwyd rhwydweithiau ffyrdd, gwestai, ac adeiladwyd lletyau newydd, ynghyd â thai te, bwytai, siopau, bragdai, tafarndai, theatr, ac ati, yn ogystal â man cyhoeddus dynodedig yn union i'r gorllewin o ffin yr Ardal Gadwraeth. Rhoddwyd Parc Lota, fel y'i gelwid, yn rhodd i'r gymuned yn 1923 gan Walter Williams, mab y capten llong nodedig William Williams, a symudodd i Chile yn 1863, ac a fu'n masnachu ar hyd arfordir De America am nifer o flynyddoedd cyn dychwelyd i Abergwaun, o ble y byddai'n masnachu gyda gwledydd y Baltig, gan allforio penwaig halen a dychwelyd gyda chywarch a phren.

4.2.16 Ym Mharc Lota mae cylch cerrig a godwyd ar gyfer Eisteddfod 1986. Adeiladwyd Cylch yr Orsedd yn Penslade adeg Eisteddfod Genedlaethol 1936, gyda cherrig o blwyfi cyfagos. Oddi ar y maen llog yng nghanol y cylch, mae golygfeydd panoramig ysblennydd ar draws y dref, yr arfordir a'r mynyddoedd yn y pellter.

4.2.17 Mae gweithgareddau traddodiadol y dref farchnad forwrol hon bellach wedi hen ddiflannu, a chanol y dref wedi arallgyfeirio'n gyrchfan i dwristiaid gyda bwytai, gwestai, caffis, lletyau, orielau sy'n gwerthu celf, serameg a gemwaith, a phob un ohonynt yn sicrhau bod y stoc adeiladau masnachol yn cael ei defnyddio'n bennaf. Dylid nodi hefyd bod y nifer o ddigwyddiadau blynyddol a gynhelir yn ychwanegu at ddiddordeb y dref.

4.2.18 Am wythnos bob mis Gorffennaf, mae Gŵyl Gerdd Ryngwladol enwog Abergwaun yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau cerddorfaol, corawl a digwyddiadau cerddol eraill gan ddenu artistiaid a cherddorfeydd o fri rhyngwladol. Mae gŵyl werin flynyddol yn dod â grwpiau mawr o bobl i mewn i'r dref i gael eu lletya, gan sicrhau bod y dref yn hyfyw yn economaidd trwy gydol y flwyddyn. Yn

ystod penwythnos Gŵyl y Banc Awst, mae Abergwaun yn cynnal 'Aberzazz', sef gŵyl jazz a'r *blues* sy'n hyrwyddo cerddoriaeth fyw yn Ardal Abergwaun.

**Archeoleg**

4.2.19 Mae nifer o garneddau neu dwmpathau artiffisial yn y cyffiniau, sy'n arwydd bod amddiffynfeydd wedi'u hadeiladu yma yn ystod rhyfeloedd rhwng y Cymry a'r Sacsoniaid goresgynnol. Mae yna hefyd safleoedd o'r Oes Neolithig ac o'r Oes Efydd gerllaw:

1. **Penrhiw** (SM942390) beddrod siambr Neolithig. (SAM)
2. **Carreg Samson / Garn Wern** (SM 948,390) Mynwent beddrod siambr Neolithig, sy'n cynnwys tair siambr gladdu yn agos i'w gilydd (SAM)
3. **Garn Wern**. (SM947390).Crug crwn o'r Oes Efydd
4. **Castell Mwrtach**. (SM 953,365) Lloc amddiffynnol o'r Oes Haearn.
5. **Y Caerau**. (SM967366) Bryngaer o'r Oes Haearn.
6. **Cell Sant Dyfrig** (yn SM 967,369). Yn ôl traddodiad lleol, treuliodd y sant Celtaidd hwn o'r 6ed ganrif ran o'i fywyd mewn ogof yng Nglyn-y-Mel ger Cwm Abergwaun. Yn ôl y chwedl, fe'i penodwyd yn Archesgob Cymru o Gaerllion gan Sant Garmon o Auxerre, ac yn ddiweddarach, ef goronodd y Brenin Arthur. (Weithiau rhoddir yr enw Lladin Dubricious i Sant Dyfrig).

## 4.3 Dadansoddiad Gofodol

### Cymeriad a Chydberthynas Gofodau o fewn yr Ardal

#### *Llwybrau*

4.3.1 Mae hierarchaeth glir o lwybrau o fewn yr Ardal Gadwraeth sy'n cynnwys y prif sianeli symud.

Yn ymestyn o'r Sgwâr, y tair prif ffordd yw:

1. **Y Stryd Fawr** (High Street) sy'n rhedeg i'r de i gyfeririad Hwlffordd a de'r sir;

2. **Y Wesh** (West Street) sy’n rhan o ffordd arfordirol yr A487 sy’n rhedeg i’r gogledd i gyfeiriad Wdig.

3. **Main Street** sy’n rhan o ffordd arfordirol yr A487 sy’n rhedeg i’r dwyrain i gyfeiriad Cwm Abergwaun ac ymlaen i Dinas a Threfdraeth

4.3.2 Mae gan ganol y dref nifer o fylchau rhwng adeiladau, sy'n ffurfio lonydd cefn, sef y Parcyshwt, sydd bellach yn darparu llwybr o'r Stryd Fawr i'r maes parcio.

4.3.3 Mae nifer o lwybrau o ganol y dref i lawr at y Slade, un o ben Penslade, un yn agos at y gofeb ryfel, ac un arall ger 1 Main Street. Mae'r cysylltiadau hyn yn dilyn y llethr arfordirol tua'r gogledd neu'r de tuag at yr harbwr a chwareli Hotch Pistyll.

4.3.4 I'r dwyrain o'r Sgwâr mae bloc o eiddo preswyl hŷn, yn bennaf o ganol y 18fed ganrif i ddiwedd y 19eg ganrif, wedi'i ffinio gan Main Street, Kensington Street, Park Street a Hamilton Street. Mae dwy ffordd fechan i ganol y bloc lle'r oedd unwaith randiroedd a mannau i gadw da byw, ond maent bellach wedi'u cau. Mae yna hefyd ffordd fechan wrth droed Kensington Street sy'n gwahanu 32 & 34 Main Street ac sy’n dod allan ar Main Street.

4.3.5 Wrth fynd ar hyd Main Street tuag Gwm Abergwaun mae dwy drofa dynn yn Terrace Hill, yn ogystal â llethr serth i lawr i lefel y môr sy'n arafu traffig ac oddi yno mae golygfeydd dramatig tuag at yr harbwr a'r arfordir. Mae'r eiddo ar Terrace Hill wedi’i adeiladu mewn camau i lawr y bryn, a phwysleisir y llethr gan ddyfnder grisiau llinell y grib a’r waliau cynnal yn y gerddi blaen.

**Nodau**

4.3.6 Y prif fannau, ardaloedd cwrdd neu nodau o fewn yr Ardal Gadwraeth yw:

- Yn y 'Golden Mile' fel y’i hadnabyddir yn lleol, ar West Street, mae meinciau, planwyr, llwybrau troed a man glaswelltog.
- Llwybrau’r Slade a mannau eistedd sy'n gwahanu'r glannau oddi wrth weddill adeiladau Abergwaun.

• Ardal parc chwarae gydag offer ac ardal agored/adloniant Parc Lota sy'n fan cyfarfod.

### *Mannau cyhoeddus, mannau agored*

4.3.7 Mae ffocws yr Ardal Gadwraeth yn bennaf ar ganol y dref ac o gwmpas y Sgwâr, lle mae’r ffyrdd a’r strydoedd yn gul a’r lle yn brin iawn ar gyfer ardaloedd mwyniant. Y prif fannau, mannau cyfarfod neu nodau o fewn yr Ardal Gadwraeth yw:

• **Y Sgwâr** yng nghanol y dref sy’n fan agored, ond sy’n aml yn llawn tagfeydd traffig. Nid oes fawr o loches i gerddwyr yma, ar wahân i ardal y tu allan i Neuadd y Dref.



Parcio wrth Neuadd y Dref (23.11.15)

• Mae ardal Y **'Golden Mile'**, gyferbyn â 17-31 Y Wesh, yn fan cyhoeddus ffurfiol gyda meinciau a gwely blodau eang. O’r fan hyn mae golygfeydd gwych ar draws y bae. Gyferbyn mae ardal fechan wedi’i phalmentu ar gornel y Wesh a Ropewalk.

• Lawr y **Slade** mae mynediad i ardal y llethr arfordirol a Llwybr y Glannau. Mae hefyd yn arwain i lawr at y draethlin ac i'r harbwr, ac mae llawer o gyfleoedd i sefyll neu eistedd ac edmygu'r golygfeydd.





Y Golden Mile (04.06.15) a’r Slade (23.11.15)

## Golygfeydd Allweddol

4.3.8 O fewn yr Ardal Gadwraeth, mae nifer o olygfeydd nodedig, llawer ohonynt sydd eisoes wedi'u trafod. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ond fe ddengys bod y golygfeydd o fewn, wrth edrych i mewn ac wrth edrych allan o'r Ardal Gadwraeth yn ffurfio rhan bwysig o gymeriad yr Ardal Gadwraeth ac felly y dylid eu gwarchod a'u gwella lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

4.3.9 Fel y gwelir o ben deheuol y Stryd Fawr a Kensington Street, mae golygfeydd o'r môr i'w gweld o lawer o fannau o fewn yr Ardal Gadwraeth, ac mae llawer o gyfleoedd i gael cipolwg o'r môr ogystal â golygfeydd panoramig tuag at y môr a'r harbwr, rhwng adeiladau ac o fannau uchel. O ben y llethr caiff y llygad ei thynnu am i lawr gan y teras serth o fythynnod, ond mae yna hefyd olygfa bell wych tua'r dwyrain ar hyd yr arfordir tua Dinas a Threfdraeth. Ymhellach i lawr y llethr ar y llwybr i lawr y Slade, mae nifer o gyfleoedd i oedi ac edmygu golygfeydd o'r harbwr drwy'r coed ac, yn y mannau agored, olygfeydd o'r arfordir a bryniau Dinas a Threfdraeth i'r gogledd.



Golygfa o waelod y Slade tua Chwm Abergwaun (04.06.2015)

4.3.9 Mae Tower Hill yn nwyrain Abergwaun yn arwain at lwybr troed sy'n dilyn ochr y dyffryn i'r de uwchben Chwareli Pistyll Hotch a Blaen-y-delyn, ac oddi yma ceir golygfeydd panoramig dros Gwm Abergwaun i gyffiniau Heol Glyn-y-Mel. O'r fan hon gellir gweld  llethrau coediog, trwchus y dyffryn uwchben y tai a'r tu hwnt i hynny, fryniau Dinas a Threfdraeth.



Golygfa o Gwm Abergwaun, i'r de o Saddle Point (2015/06/04)



Golygfa o Gwm Abergwaun o'r Slade (04.06.2015)

4.3.10 O ardal ddiarffordd rhan uchaf y Slade mae golygfeydd hyfryd o'r harbwr, gyda golygfa bellach o fryniau Dinas a Threfdraeth.



Golygfa o Hill Terrace, o Tower Hill (04.06.2015)

4.3.11 O sawl safle yng nghanol y dref mae golygfeydd o'r môr, yn arbennig o High St, Y Wesh, Kensington Street, Main Street, a Tower Hill.

4.3.12 Mae'r briffordd o'r de yn arwain tuag at ganol y dref ar hyd y Stryd Fawr, sydd â llethr graddol, ac o rif 77 Y Stryd Fawr, mae palmentydd o boptu'r ffordd. Nid oes unrhyw rwystr i gerbydau o gwbl nes cyrredd ardal mynedfa Capel Hermon ble mae'r ffordd a'r palmentydd yn culhau ac mae blaenau'r adeiladau o boptu'r stryd yn nes at ei gilydd gan arwain y llygaid i lawr tuag at ganol y dre, gydag Eglwys y Santes Fair yn ganolbwynt, a golygfeydd o'r bryniau yn y pellter.

4.3.13 O Penslade mae golygfeydd ysblennydd draw i'r harbwr a thuag at gefn yr r eiddo ar Main Street. Mae gan rai ohonynt dri a phedwar llawr gan iddynt gael eu hadeiladu i mewn i'r llethr ac mae gan rai isloriau.


4.3.14 Mae golygfeydd hardd o lawer o safleoedd yn y dref. Mae'r cipolygon bychain a'r golygfeydd eang o'r môr a'r arfordir garw i'r gogledd yn rhan o gymeriad y dref, ac yn ychwanegu at ddiddordeb arbennig y strydlun. Ble bynnag y byddwch chi o fewn y fframwaith trefol, fe'ch atgoffir bod y dref ar ochr llethr arfordirol serth a'i bod ar fin, ac yn edrych dros, y môr.

**Adeiladau Allweddol o Bwys**

4.3.15 Roedd twf cynnar yr ardal yn seiliedig ar ddatblygiad cyflym masnachu morol ac arfordirol ac adeiladu llongau yn ystod y 18fed ganrif, ynghyd ag amrywiaeth o fusnesau cysylltiedig a sefydlwyd i gwrdd ag anghenion y gymuned amaethyddol, yr ymsefydlwyr, a  theithwyr a masnachwyr môr.

4.3.16 O ganlyniad i adeiladu'r rheilffordd a datblygiad terfynell y fferi yn Wdig roedd angen rhagor o dai, siopau, ysgolion, eglwysi, ac ati, ar gyfer y mewnlifiad newydd o weithwyr ac ymsefydlwyr. Mae nifer o adeiladau amlwg eraill sydd bellach wedi'u rhestru ac sydd o fewn yr Ardal Gadwraeth, wedi'u hadeiladu yn ystod y twf yma, gan gynnwys adeiladau crefyddol.






32 Main Street ac adeiladu Institiwt Eglwys y Santes Fair. (23.11.2015 )

4.3.17 Mae rhif 32 Main Street yn dŷ teras pen o ddechrau'r 19eg ganrif gyda llawr gwaelod a addaswyd yn ystod yr 20fed ganrif. Mae'r to yn hongian dros rif 34 ac roedd y simnai chwith yn simnai i rif 34 yn wreiddiol. Wedi'i leoli gyferbyn â'r eglwys, mae'r Institiwt yn strwythur o ddechrau'r 20fed ganrif mewn arddull Celf a Chrefft syml. Mae gan yr eiddo ffryntiad bach ar y stryd, ond mae'n ymestyn yn ôl dros blot mawr.




4.3.18 Mae Gwesty Abergwaun ar y Sgwâr yn adeilad deulawr gyda llawr

arall yn y to. Ar hyn o bryd mae'r adeilad amlwg hwn yn wag. Ar y Wesh mae Bethel, Eglwys y Bedyddwyr Saesneg a adeiladwyd ym 1905 mewn arddull is glasurol gyda'i dalcen flaen wedi'i rendro â stwco. Mae'n adeilad deulawr â bwa enfawr yn y pediment. Dyluniwyd gan J. Howard Morgan, ac mae'r tu mewn yn nodweddiadol o Morgan, gyda rhan ganol y nenfwd yn agored i'r trawstiau. Nodweddiadol hefyd, yw manylion canllawiau'r oriel. Lletywyd milwyr yn y festri o 19 Mehefin 1940[13].




Gwesty Abergwaun a Bethel, Eglwys y Bedyddwyr Saesneg (23.11.2015)

4.3.19 Ffasâd Capel Hermon ar y Stryd Fawr yw'r ffasâd clasurol hysbys cynharaf yng Nghymru. Rhennir y ffasâd gan gornis cryf ar y llawr cyntaf, sy'n lledu ymlaen dros y pileri garw, gan fframio'r logia gyda cholonâd Dorig pedwar bae. Uwchben y drysau mae ffenestri ffan, cain, caeedig ac mae grisiau i'r galeri'n codi'n daclus ar bob pen, yn hytrach nag o'r tu mewn i'r capel.  Uwchben mae dwy ffenestr gyda ffenestri ffan uwch eu pennau, wedi'u gosod mewn cilfachau bwaog[14]. Mae rhif 64 Y Wesh yn enghraifft o eiddo dirodres o'r cyfnod Sioraidd, ddiwedd y 18fed ganrif, gyda wal wedi'i gorchuddio â llechi.

[13] Taflen Wybodaeth Leol 37, Cymdeithas Treftadaeth y Capeli: Abergwaun, 2010 http://www.capeli.org.uk/uploads/local_37_abergwaun.pdf

[14] Taflen Wybodaeth Leol 37, Cymdeithas Treftadaeth y Capeli: Abergwaun, 2010 http://www.capeli.org.uk/uploads/local_37_abergwaun.pdf





Waliau wedi'u gorchuddio â llechi yn rhif 64 y Wesh, a Chapel Hermon (23.11.15)




Neuadd y Dref Abergwaun (23.11.15) a'r Fishguard Arms (11.03.2008)




4.3.20 Adeiladwyd Neuadd y Dref, a leolir yn Sgwâr y Farchnad, yn 1830 ac ychwanegwyd cloc i goffáu'r Jiwbilî yn 1890. Fe'i hadnewyddwyd yn y 1950au, pan gafodd blaenau siopau eu dileu a ffenestri codi eu gosod, er bod manylion yn brin am sut yr edrychai'n gynharach. Mae'r Royal Oak yn dafarn, ac yn gyn dŷ, traddodiadol o'r 18fed ganrif. Yn ôl y sôn, yma arwyddwyd y cytundeb i ddod â glaniad y Ffrancod i ben yn 1797. Adeiladwyd adeilad unllawr y Royal Oak o rwbel carreg, gydag atig, to llechi a simnai carreg ar y pen. Mae tair ffenestr godi 4 paen yn ymestyn i mewn i'r bargodion, toeon 'cat-slide' a ffenestri tebyg i'w gilydd o boptu'r drws traddodiadol, canolog. Mae'r Royal Oak yn cael ei hadnewyddu ym mis Tachwedd 2015 a bwriedir iddi barhau fel tafarn.

**Tir y cyhoedd**

4.3.21 Yn ardal drefol yr Ardal Gadwraeth, mae elfennau tir y cyhoedd megis celfi stryd, goleuadau a phlanwyr yn fodern ac ymarferol eu naws. Mae rheiliau addurnol ac arwyddion mewn steil traddodiadol ym man agored y Wesh. Mae

gwelyau blodau yn gwella'r gofod cymunedol hwn. (Gweler llun Neuadd y Dref, Abergwaun uchod).




Man Agored y Wesh (04.06.2015)

**Mannau agored/gwyrdd, coed a thirlunio**

4.3.22 Ychydig iawn o le gwyrdd neu goed sydd yn yr ardal, heblaw am ochr ddeheuol Park Street (ddim yn dir cyhoeddus) a gyferbyn â 17-32 Y Wesh, gan fod yr adeiladau yn gyffredinol yn dilyn ymyl y stryd yng nghanol y dref. Mae gan y rhan fwyaf o eiddo erddi yn y cefn ac mae gan lawer ar gyrion yr Ardal Gadwraeth erddi blaen bychain. Mewn llawer o leoliadau yn y dref ceir golygfeydd tuag at ogledd y dyffryn, - y llethrau arfordirol agored, yr arfordir, ac ardal yr harbwr sydd yn wyrdd a choediog ac yn lleddfu ar y teimlad trefol mwy clawstroffobig sydd yng nghanol y dref.

4.3.23 Yn 2006 bu'r Ardal Gadwraeth, sy'n cynnwys y Slade a dyffryn yr arfordir, yn destun Asesiad Ecolegol fel rhan o gynigion gwella gan Ymgynghorwyr Capita Symonds. Edrychodd yr astudiaeth hon ar y 1.5km o lwybrau troed, o safbwynt y posibilrwydd o'u gwella, ac roedd yn cynnwys arolwg ecolegol o'r llwybrau er mwyn asesu'u cyflwr ac adnabod cyfyngiadau megis cynefinoedd rhywogaethau a warchodir, yn agos at y llwybrau. Awgrymwyd yn yr astudiaeth fod Cymdeithas yr Amgylchedd yn cydweithio ar strategaeth rheoli gyda Chyngor Sir Penfro, er mwyn sicrhau bod natur gymhleth perchnogaeth y tir ar hyd y llwybr yn cael ei ystyried.

Man agored a Chylch yr Orsedd yn Slade a Penslade (23.11.2015)







4.3.24 Awgrymodd yr astudiaeth fod Cymdeithas yr Amgylchedd yn cymryd prydles 3-5 o flynyddoedd fel rhan o gytundeb rheoli. Byddai hyn yn galluogi'r Gymdeithas i gymryd math o berchnogaeth er mwyn cael mynediad at gyllid a gwneud gwaith gwella. Awgrymir gwaith cynnal a chadw gan y Cyngor Sir yn y dyfodol. Mae rhywfaint o waith gwella wedi'i wneud gan y Cyngor Sir, ond nid yw'r mater o berchnogaeth a rheolaeth wedi'i datrys hyd yn hyn. Mae grŵp gwirfoddol lleol yn cynnal a gwella'r mannau gwyrdd.

**4.4 Dadansoddiad Cymeriad**

4.4.1 Yn fras, gellir rhannu Ardal Gadwraeth Abergwaun yn dair rhan o safbwynt cymeriad - pob un ohonynt gyda'i nodweddion cynhenid annibynnol. Er nad yw ffiniau'r ardaloedd yn sefydlog na phendant, mae gwahaniaethau amlwg rhyngddynt o ran defnydd tir a gweithgareddau presennol a blaenorol, ffurf adeiladu, cynllun a nodweddion a manylion unigol.

**1. Y Slade,** gan gynnwys Penslade.

**2. Canol y dref**, gan gynnwys Lower West Street,  Y Sgwâr, Main Street, Y Stryd Fawr

**3.  Ardaloedd preswyl**

Gogledd - i gynnwys: Vergan Terrace, Y Wesh

Gorllewin - i gynnwys: i'r gorllewin o High Street

Dwyrain - i gynnwys: Park Street, Kensington Street, Hamilton Street, Tower Hill

4.4.2 Mae'r map ardaloedd nodwedd yn dangos maint bob ardal (Atodiad 1). Mae'r adrannau isod yn trafod yn gryno'u datblygiad hanesyddol ac yn crynhoi eu prif nodweddion.

**Ardal Nodwedd 1: Y Slade**

4.4.3 Mae'r Slade yn ddyffryn dwfn, cysgodol a diarffordd sy'n rhedeg i’r gogledd-ddwyrain o gyffordd Ropewalk / Y Wesh i lawr at ymyl y dŵr gyferbyn â wal y cei yn yr harbwr yng Nghwm Abergwaun.

4.4.4 Mae gan y dyffryn lethrau serth gydag ardaloedd coediog, a rhwydwaith o lwybrau ar wahanol lefelau sy'n cysylltu’r ardal â chanol y dref ger y Gofeb Ryfel, yr harbwr a phen gogleddol y Penrhyn.



Dyffryn y Slade (23.11.2015)

4.4.5 Yn hanesyddol dyma’r ardal lle byddai llongau’n cael eu hadeiladu a lle y byddai gweithgaredd masnachu arfordirol yn digwydd. Byddai cychod yn cael eu llwytho a’u dadlwytho ar lanw isel gyda deunyddiau adeiladu, cargo a nwyddau’n cael eu cludo at y draethlin o ganol y dref, i lawr y Slade. Mae rhwydwaith o lwybrau troed i wahanol rannau o'r dref.





Eiddo ar y Slade 04.06.2015

4.4.6 Ym mhen ucha'r Slade, rhifau 1 a 2 yw'r bythynnod hynaf yn y teras, adeilad sengl a adeiladwyd o rwbel carreg yng nghanol y 18fed ganrif ac a rannwyd yn ddau fwthyn, ac sydd wedi cadw agoriadau gwreiddiol y ffenestri a'r drysau. Mae gan yr adeilad gonglfeini anarferol o gerrig llwyd cyferbyniol, to llechi goleddfol sengl isel talcennog, a gardd fawr o'i flaen gyda choed a llwyni syn rhoi preifatrwydd, a wal o'i chwmpas.

4.4.7 Ymhellach i lawr mae teras o fythynnod carreg o ddiwedd y 19eg ganrif, a adeiladwyd yn ôl pob tebyg i gartrefu gweithwyr yn yr ardal. Nid yw'r bythynnod wedi'u rhestru gan fod ynddynt ffenestri Upvc amlwg, a chollwyd rhywfaint o fanylion traddodiadol. Mae'r manylion sy'n uno'r tai yn y teras hwn yn cynnwys toeon llechi serth (hyd at 40 gradd), simneiau brics gyda photiau clai, teils crib, nwyddau dŵr glaw haearn bwrw, ffenestri codi fertigol wedi'u peintio ac wedi'u gosod yn ôl, ar gyfartaledd, 100mm oddi wrth y ffasâd, baeau llawr gwaelod gyda thoeau fflat, gorffeniad rendr llyfn wedi'i beintio, manylion mewn brics coch o amgylch yr agoriadau, a gerddi blaen bychain gyda waliau o'u cwmpas o frics neu garreg a rheiliau haearn gyr a giatiau wedi'u peintio.

4.4.8 Ymhellach i lawr y Slade mae 'Glenside' a adeiladwyd tua 1900. Fe'i moderneidiwyd ac erbyn hyn mae wedi colli'r holl nodweddion gwreiddiol. Mae rhifau 1 a 2 Slade Cottages o ddechrau'r 19eg ganrif, ac maent wedi colli'u manylion ffenestri gwreiddiol, ond ar wahân i hyn maent wedi cadw'u graddfa wreiddiol a'u lleoliad hanesyddol wrth droed llwybr coediog, serth, sy'n cysylltu, i fyny ochr y bryn, â chanol y dref ger y gofeb ryfel.





Glenside a Slade Cottages (04.06.2015)

4.4.9 Ymhellach ymlaen mae grŵp o bedwar bwthyn, y ddau isaf ohonynt i’w gweld ar  fap hanesyddol 1843-1893. Maent yn amrywio o ran maint a graddfa ond mae ganddynt doeau gyda'r un goleddf, yn un gorffeniad rendr a ffenestri fertigol traddodiadol.



Bank Terrace (04.06.15)

4.4.10 Mae Bank Terrace yn rhes o 4 bwthyn mewn lleoliad diarffordd, wedi'i hamgylchynu gan goed tal yn y cefn, ac ar y chwith wrth fynd i lawr y Slade. Mae rhif 1 wedi cael ei '*foderneiddio*' yn ddiweddar, ac mae ganddo do talcennog mawr gyda thair ffenestr ddormer swmpus ac estyniadau anaddas i'r ochr a’r blaen sy'n tynnu sylw oddi wrth y tri bwthyn arall sydd wedi cadw’u cymeriad, graddfa a’u hudoliaeth gwreiddiol. Mae gan y rhain fanylion sy’n gyffredin megis y to llechi di-dor, simneiau bric, bandiau plastr wedi’u codi o amgylch agoriadau, a ffenestri fertigol.



Carreg yr Eos (04.06.2015)

4.4.11 Bron ar waelod y Slade mae’r fynedfa i 'Garreg yr Eos', sy'n sefyll uwchben hen odynau calch segur. Mae hwn yn fwthyn carreg, deulawr traddodiadol o ddechrau i ganol y 19eg ganrif, gyda thoeau goleddfol uwchben y llawr cyntaf, a ffenestri codi, pren yn torri'r ar linell y bondo. Mae ganddo estyniadau diweddarach i'r ochrau ac mae’r portsh yn brin o nodweddion traddodiadol, ond serch hynny mae'n ganddo’n dal i fod ryw hudoliaeth. Saif o fewn ei dir ei hun yng nghanol coed aeddfed, ac mae golygfeydd ysblennydd o harbwr Cwm Abergwaun i’w gweld oddi yno.

Tai Fictoraidd Penslade (04.06.2015)





4.4.12 Mae **Penslade** yn rhedeg o gyffordd y Wesh a Ropewalk tua'r gogledd ar hyd y llethr arfordirol uwchben y Slade, ac yn cynnwys teras o dai Fictoraidd crand sy'n nodwedd amlwg o’r strydwedd wrth edrych arni o'r Wesh ac ar draws y dyffryn o Stryd y Cei a Heol Trefdraeth. Mae rhif 1 yn adeilad siop gornel heb unrhyw rinwedd arbennig, ond mae rhifau 2 -13 yn ffurfio llinell drawiadol gyda llawer o fanylion yn gyffredin fel y toeon dormer goleddfol mawr gydag estyll tywydd ffansi a osodwyd dan doeon llechi, teils crib clai coch (sy’n nodwedd yn y dref), simneiau mawr addurnedig o frics dau liw, ffenestri bae mawr ar y llawr gwaelod sy'n ymestyn hyd at y llawr cyntaf a ffenestri yn y to, canopïau pren addurnedig uwchben drysau ffrynt y ddau eiddo, rhywfaint o waith plastr llorweddol addurnedig, a waliau cerrig wedi’u plastro’n gain, gyda rheiliau a gatiau haearn gyr addurnedig o gwmpas y gerddi ffrynt.

4.4.13 Mae ffenestri pvc wedi’u gosod yn rhai o’r adeiladau, a chollwyd rhai manylion; mae gorffeniadau’r waliau’n amrywio, mae gan rai gerrig wedi’u pwyntio a manylion brics ac mae gan rai orffeniad plastr, ond mae digon o nodweddion i’w huno’n gadarn megis y ffenestri dormer mawr a ffenestri fertigol, gan gadw rhythm y teras a chyfiawnhau’u lle o fewn yr Ardal Gadwraeth.

4.4.14 Mae'r eiddo yn cael gofal da, ac mae gan rai o'r gerddi ffrynt arddangosfeydd o flodau lliwgar, sy'n rhoi awyrgylch hapus, cadarnhaol i’r strydlun. Mae'r eiddo yn wynebu'r de-ddwyrain ac mae golygfeydd eang ar draws y Slade am y bryniau y tu ôl i Gwm Abergwaun, ac maent, ar yr un pryd, yn nodwedd allweddol a welir o Terrace Hill ac o bob rhan o'r dref, gan fod felly yn rhan o ddiddordeb y Wesh.

**Ardal Nodwedd 1: Crynodeb ac Argymhellion.**

**Mae'r Slade yn lleoliad pwysig iawn yn hanesyddol, o ran ei hanes morwrol, ac mae'i leoliad gwyrdd, arfordirol yn gyferbyniad da i awyrgylch trefol yn bennaf, gweddill y dref.**

**Mae pob un o'r tai yn y cyffiniau hyn o bwysigrwydd hanesyddol gan iddynt gael eu hadeiladu fel ymateb i dwf cyflym yn y gweithgareddau cysylltiedig â'r môr o ddiwedd y 18fed a'r 19eg ganrif, ac fe ddylid eu gwarchod rhag rhagor o ddatblygiad amhriodol (fel ar Bank Terrace).**

**Mae Slade a Penslade hefyd yn ardaloedd cyhoeddus iawn gyda golygfeydd panoramig, ac mae'r llwybr coediog i lawr ar ymyl y dŵr, tua'r gogledd ar hyd llwybrau'r arfordir a'r glannau, ac i lawr i ardal yr harbwr yng Nghwm Abergwaun, yn lle i gael seibiant o fwrlwm y canol y dref.**

**Dylai'r nodweddion hyn gael eu gwarchod gan eu bod yn rhan sylweddol o**

**'diddordeb arbennig' yr Ardal Gadwraeth.**

**Mae'r llethrau arfordirol gwyrdd wedi bod yn destun anghydfod dros eu perchnogaeth. Mae rhai perchnogion wedi tocio neu dorri coed i lawr er mwyn gwella'u golygfa'u hunain, ond mae hyn wedi effeithio ar y lleoliad yn gyffredinol, ond fe allai'r ardal hon fod yn destun cynllun rheoli mwy ffurfiol, yn unol ag argymhellion Arfarniad Ecolegol o ardal llwybr y glannau a gynhaliwyd gan Capita Symonds (Mehefin 2005).**

**Tra bod rhywfaint o golli manylion wedi'i nodi, ffenestri pren traddodiadol sydd wedi'u colli gan fwyaf, ac mae'n bosibl adfer y rhain. Gallai canllawiau dylunio gan y Cyngor annog ailosod manylion traddodiadol.**

**Dylid annog gosod gwifrau dan y ddaear, yn enwedig ar ben y**

**Slade, lle mae polyn telegraff yn cysylltu gwifrau i bob eiddo.**

**O fewn Ardaloedd Cadwraeth dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gosod dysglau lloeren a gwifrau a cheblau'r cyfleustodau ar brif ffasâd adeiladau, ond gall gwifrau hanfodol gael eu cuddio ar hyd llinell y bondo.**

**Ardal Nodwedd 2: Canol y Dref**
Y Sgwâr, Main Street, a gwaelod y Wesh.









Sgwâr Abergwaun (2015)

4.4.15 Y Sgwâr yw calon hanesyddol y dref ac yno oedd y farchnad yn y canoloesoedd, ond erbyn hyn mae’r Sgwâr yn bwynt cyfarfod ar gyfer traffig sy'n mynd i dri chyfeiriad, gydag amrywiaeth o adeiladau o boptu’r ffyrdd hyn.

4.4.16 Yr adeiladau o gwmpas y Sgwâr yw rhai o adeiladau hynaf y dref yn ôl pob sôn, gyda rhai’n tarddu o’r 16eg ganrif 17eg o bosibl, ond maent yn sefyll ochr yn ochr ag adeiladau diweddarach gan ffurfio’r jig-so o arddulliau pensaernïol, maint, gorffeniadau, lliwiau a manylion to sy'n rhoi ei olwg a’i gymeriad nodedig, hanesyddol i’r Sgwar. Mae Gwesty Abergwaun yn un o westai’r goets fawr, o’r 18fed ganrif, sydd, oherwydd ei faint, yn adeilad amlwg ar y Sgwâr,.

4.4.17 Ar ochr ogleddol y Sgwâr mae tafarn y Royal Oak (sy’n cael ei hadnewyddu yn Nhachwedd 2015), adeilad bychan, carreg, arddull bwthyn, nesaf at adeilad mawr o ddechrau'r 19eg ganrif gyda ffasâd ffug Sioraidd, Banc Barclays, sy’n ffurfio ffin orllewinol mynwent eglwys y Santes Fair, gyda rhif 1 Main Street yn ffurfio ffin ddwyreiniol y fynwent.

4.4.18 Tuag ochr ddeheuol y Sgwâr mae rhes o adeiladau, o'r eiddo preswyl, rhifau 1 - 11 ar waelod y Stryd Fawr,  ac adeiladau cyhoeddus megis Neuadd y Dref gydag adeilad y Farchnad yn y cefn, hen siopau Fictoraidd, adeilad Institiwt Eglwys y Santes Fair, a'r Farmers Arms hanesyddol.

4.4.19 Yng nghefnau'r eiddo hyn mae tai allan a waliau carreg uchel (nad ydynt yn rhan o'r Ardal Gadwraeth), sy'n ffurfio ffin maes parcio bychan, sydd â chysylltiadau i'r dref i gerddwyr drwy'r Parc y Shwt, rhwng 11 a 13 y Stryd Fawr, drwy gefn Neuadd y Dref, a thrwy Hamilton Street.

4.4.20 Mae Main Street sy'n rhedeg i'r dwyrain oddi wrth y Sgwâr yn cynnwys tai a adeiladwyd rhwng canol y 18fed a chanol y 19eg ganrif. I'r dde o fynwent Eglwys y Santes Fair, adeiladwyd rhif 1 Main Street yn erbyn y terfyn. Mae blaen yr adeilad yn gul, ond mae'n mynd yn ôl yn bell, gyda ffryntiad siop cain o ddiwedd Oes Fictoria, drws canolog cilfachog a dwy ffenestr arddangos, gwydr crwm.






Ffenestri Fictoraidd crwm yn 1 Main Street a 3 - 11 Main Street (23.11.2015)

4.4.21 I'r ochr, mae mynedfa gul i gerbydau i Penrallt Cottage a'r Coach House isod ac  i gefn rhifau 3 -13 Main Street, a hefyd at lwybrau troed sy'n cysylltu â'r Slade (gweler uchod) . Hen stablau oedd y rhain, a droswyd yn ddiweddarach yn dai, ac sy'n edrych dros ddyffryn y Slade.





Eiddo amrywiol (eilrifau) ar Main Street (23.11.2015)

4.4.22 Ar Main Street mae amrywiaeth o adeiladau Sioraidd syml dau a thri llawr, cymesur, sydd i gyd i'w gweld ar fap hanesyddol 1843. Does yr un dau ffasâd fel ei gilydd, ond mae ganddynt fanylion sy'n gyffredin, megis:

1. Toeon goleddfol o lechi naturiol a gloddiwyd yn lleol gyda simneiau mawr plaen o frics neu garreg gyda chorbelau, a photiau clai.
2. Teils crib uniad bôn.
3. Manylion 'dentil' i'w gweld ar ymylon trawstiau rhai o'r adeiladau.
4. Nwyddau dŵr glaw haearn bwrw wedi'u peintio'n ddu.
5. Ffenestri codi fertigol,12 paen wedi'u gosod i mewn o leiaf 100mm oddi wrth y ffasâd, a gyda siliau dwfn llechen neu garreg.
6. Mae ganddynt i gyd rendr llyfn wedi'i beintio, rhai ohonynt gyda llinellau ashlar.
7. Mae gan rai fynedfa i'r islawr o'r stryd ac mae waliau'n amgylchynu ardal y grisiau.

4.4.23 I'r de o'r stryd mae amrywiaeth o adeiladau, o ddiwedd y 18fed ganrif yn bennaf, a adeiladwyd o dipyn i beth, gan gymryd fawr o sylw o'i gilydd o ran manylion na graddfa. Mae yno nifer o flaenau siopau Fictoraidd a ychwanegwyd, ond sydd bellach yn segur ar gyfer y diben hwnnw. Mae'r adeiladau'n amrywiol iawn o ran maint gyda ffasadau dau a thri llawr, goleddfau amrywiol i'r toeon, manylion simneiau, gorffeniadau plastr a maint ffenestri gwahanol. Mae'r palmant ar yr ochr hon yn gul iawn ac nid yw'n cael ei ddefnyddio lawer gan gerddwyr am fod y ffordd yn brysur iawn oherwydd bod llawer o draffig yn teithio drwy'r dref.

4.4.24 Gwaelod Y  Wesh. Mae ochr ddeheuol y stryd rhwng rhifau 33 - 85 yn gymysgedd o adeiladau preswyl deulawr syml o ddechrau'r 19eg ganrif ymlaen.

4.4.25 Mae'r llinell adeiladu yn unffurf, gyda’r eiddo’n agos at ymyl y ffordd, a’r palmentydd yn gul mewn mannau. Nodweddion sy’n uno’r adeiladau yw llinell barhaus y grib, toeon llechi gyda simneiau brics neu garreg, rhai ffenestri dormer goleddfol, ffenestri fertigol a osodwyd i mewn o’r ffasâd, ffenestri codi, rhai â rendr llyfn wedi’i beintio, a rhai â phatrwm yn y band plastr dros agoriadau’r ffenestri a’r drysau.



Eiddo preswyl a masnachol yn gymysg ar y Wesh (04.06.2015)

4.4.26 Mae llawer o dai wedi dioddef moderneiddio amhriodol yn ystod yr 20fed ganrif gyda llawer ohonynt wedi colli deunydd traddodiadol, ond maent yn dal i fod yn rhan o graidd hanesyddol y dref. Mae llawer o'r eiddo tri llawr rhwng 70 a 50 ar y Wesh wedi’u newid yn ddirfawr er mwyn creu gofod manwerthu ar y llawr gwaelod. Bu llawer o foderneiddio gan ddefnyddio Upvc, ond mae’r teras wedi cadw llawer o’r ffenestri bae ar y llawr cyntaf a’r ffenestri dormer goleddfol, ac felly’n dal i fod â hunaniaeth grŵp cryf.

4.4.27 Tuag at ganol y dref mae rhifau 17- 31 West Street yn ffurfio rhes o adeiladau masnachol unigol dau neu dri llawr, pob un gyda cymysgedd o ddefnydd masnachol a lle preswylio uwchben.Mae amrywiaeth o fanylion traddodiadol blaenau siop Fictoraidd / Edwardaidd, gydag amrywiaeth o doeon dormer, rhai gyda thoeon talcen yn ymestyn i lawr dros y ffenestri bae ar y llawr cyntaf. Oherwydd bod yr adeiladau yn amrywio o ran uchder mae llinell y toeon yn nodwedd amlwg o'r teras, a gyda'u hamrywiaeth o ardduliau bargodion a ffenestri dormer, eu paent lliwgar a'r amrywiaeth enfawr o feintiau ffenestri, mae'r teras yn nodwedd unigryw o ardal y Wesh o'r dref.

4.4.28 Gyferbyn â'r teras hwn, ar ochr arall y ffordd mae darn llydan o laswellt gyda gwely blodau ffurfiol rhwng y palmant a'r ffordd, sy'n lloches i gerddwyr ac oddi yno mae golygfeydd panoramig draw am y dwyrain.




Eiddo Masnachol, Y Wesh (23.11.15)

4.4.29 Rhwng rhifau 15 a 17 West Street, wedi'i osod yn ôl o ymyl y ffordd, mae adeilad ysgol, mawr a adeiladwyd tua 1912.. Mae'n safle mawr gyda wal gerrig solet o'i gwmpas, ac o'r ffordd at y fynedfa, ac yn y ddau gyfeiriad a'r ddwy ochr tuag at Chimneys Lane ac at y modurdai tu cefn i 17 - 25 Y Wesh. Mae darn mawr o darmac ar y safle. Drwy ei ailddatblygu'n sensitif mae gan yr eiddo botensial mawr i gyfoethogi cymeriad yr Ardal Gadwraeth.




Rhifau 15 a 17 Y Wesh, a’r hen ysgol, o’r Wesh (23.11.15)

4.4.30 Adeiladwyd rhif 15 ganol y 19eg ganrif, ac mae'n eiddo preswyl sengl, cymesur gyda blaengwrt amgaeedig i'r chwith, a blaen siop Edwardaidd syml a chymesur gyda manylion da.

4.4.31 Gyferbyn â'r fynedfa i'r ysgol mae dau adeilad (20 a 18) a adeiladwyd ar ôl 1943,  un ohonynt yw Banc yr HSBC, ac mae'r llall yn siop grefftau. Mae ychydig o nodweddion sy’n eu huno, ond mae'r amrywiaeth enfawr o ddeunyddiau, maint a steilio yn rhan o ddiddordeb arbennig y strydlun.

4.4.32 Wrth symud o'r ardal agored yma ar y Wesh tuag at y Sgwâr mae’r ffordd yn culhau a throelli i ffurfio un lôn rhwng rhifau 1 - 16, ac yn aml mae gwrthdaro oherwydd agosrwydd traffig a cherddwyr, sy’n cael ei ddatrys yn rhannol gan rodfa dywyll, ddinodwedd, ger Gwesty Abergwaun sy'n gwahanu’r cerddwyr a’r traffig ar gornel y stryd.





Llwybr dan do, wedi'i fyrddio, Gwesty Abergwaun (23.11.15) a gwaelod y Wesh (23.11.15)

4.4.33 Nid yw'r adeiladau sengl hyn yn dilyn llinell adeiladu gaeth, sy'n dystiolaeth glir o ddatblygiad cynnar, o dipyn i beth. Mae bylchau rhwng yr adeiladau er mwyn rhoi mynediad i'r cefnydd, ac mae yma amrywiaeth enfawr o adeiladau dau a thri llawr sy'n gwahaniaethu'n fawr o ran uchder a lled, yn dyddio o ddechrau'r 18fed i ddiwedd y 19eg ganrif.

4.4.34 Mae rhai manylion cyffredin rhyngddynt, gan gynnwys ffenestri bae pren, traddodiadol ar y llawr cyntaf gyda thoeon llechi serth neu doeon fflat plwm uwch eu pennau, ffenestri codi syml, pren gyda 2 neu 4 paen ar yr ail lawr, wedi'u gosod 100mm i mewn o'r wyneb, rendr llyfn wedi'i beintio a nwyddau dŵr glaw haearn bwrw. Mae rhif 10 yn adeilad trillawr o ddechrau'r 19eg ganrif sydd lawer yn fwy na rhif 12 drws nesaf. Mae rhif 12 wedi'i osod yn ôl gyda gardd ffrynt fechan a wal isel o'i chwmpas. Mae ei ffasâd mewn rhes â rhifau 14 a 16, adeiladau Sioraidd tri llawr gyda thalcenni yn wynebu'r ffordd, a phortico colofnog, a atgyweiriwyd yn ddiweddar, dros y ddau ddrws canolog.



4.4.35 Yn y rhan yma o'r dref mae'r adeiladau tal yn eithaf agos at ei gilydd ar hyd ffordd droellog gul. Mae'r palmentydd yn gul mewn mannau ac yn cyfrannu at y teimlad amgaeedig yma. Mae amrywiaeth eang o arddulliau adeiladu yma, a'r adeiladau hyn o'r 18fed ganrif sy'n ffurfio craidd y dref.

**<u>Ardal Nodwedd 2: Crynodeb ac Argymhellion.</u>**

**Mae cymeriad craidd hanesyddol y dref i'w weld yn y strydoedd troellog cul sy'n llawn o adeiladau dau a thri llawr o ddechrau'r 18fed i ddiwedd y 19eg ganrif, wedi'u hadeiladu'n agos at ei gilydd. Mae yma ffasadau lliwgar, o wahanol led ac uchder, manylion diddorol ar y toeon ac ar yr ymylon, cyfeiriadedd amrywiol gan adeiladau mewn perthynas â'r stryd, ac absenoldeb llinell adeiladu ddiffiniedig.**

**Mae llinell y toeon yn gymhleth gyda llawer o amrywiaeth o ran uchder, maint a lleoliad, mae simneiau amlwg, ac mae amrywiaeth eang o arddulliau**

**ffenestri dormer, a hyn i gyd yn cyfrannu at gymeriad a diddordeb arbennig y strydlun.**

**Unwaith eto, collwyd rhai ffenestri pren traddodiadol, ac mae rhai o'r blaenau siopau mwy modern (fel yn rhifau 11 a 13), yn amharu ar gymeriad a diddordeb arbennig canol y dref, ond ar y cyfan, mae maint a chymhlethdod y siapiau a gyflwynir yma, yn ogystal â'r holl fanylion gwreiddiol a lliwiau llachar yn ffurfio strydlun Sir Benfro cryf a chydlynol.**

**Byddai'r llwybr dan do i gerddwyr ger Gwesty Abergwaun yn elwa o atgyweiriad gofalus, arddangosfeydd ffenestr a gwell goleuadau i'w wneud yn fwy deniadol. Dylai unrhyw gynigion ailddatblygu ar gyfer yr hen ysgol Fictoraidd gynnwys manylion clir o aildrefniad y ffordd a mynediad at y 'Chimneys' a'r modurdai.**

**Ardal Nodwedd 3: Ardaloedd Preswyl**

4.4.36 Mae ardaloedd preswyl yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys Vergam Terrace, Y Wesh, y Stryd Fawr, a’r bloc i'r dwyrain o’r Sgwâr, o fewn strydoedd Hamilton Street, Park Street, Kensington Street, Main Street a Tower Hill.





Eiddo Vergam Terrace (4.6.15)

4.4.37 Mae rhifau 1- 23 (odrifau) a rhifau 10-24 (eilrifau) Vergam Terrace yn ddwy res o  dai tref deulawr a hanner sy’n dyddio o ddiwedd y 19eg a dechrau’r 20fed ganrif, gyda rhai manylion ardderchog sy’n cael eu hailadrodd megis to llechi di-dor gyda theils crib clai uniad bôn, toeon dormer mawr llechi yn ymestyn o'r ffasâd, simneiau tal addurniadol o frics, rhai estyll tywydd addurniadol, bandiau plastr addurniedig o amgylch agoriadau, manylion plastr addurniedig o gwmpas y ffenestri bae a nwyddau dŵr glaw haearn bwrw. Mae gan rifau 2 - 24 erddi blaen

bychain wedi'u hamgáu gan waliau brics gyda rheiliau a gatiau haearn gyr wedi'u paentio, sef un o nodweddion y dref.

4.4.38 Mae gan rhai o'r adeiladau ffasadau brics tra bod eraill wedi'u rendro a'u paentio, ond mae gan y ddau deras yma, sy'n wynebu ei gilydd, hunaniaeth grŵp cryf. Mae'r ffaith bod rhai manylion pwysig wedi'u colli ar rai o'r adeiladau a bod rhai ffenestri metel a Upvc wedi'u gosod yn tynnu rhywfaint oddi ar eu golwg traddodiadol.





52  Y Stryd Fawr a'r teras eilrifau, ac odrifau (55 i 43) (4.6.15)

4.4.39 Adeiladwyd y tai preswyl ar ochr ogleddol y Stryd Fawr, o rif 78- 52, tua 1900. (Nid yw'r rhain i'w gweld ar y map dyddiedig 1843-1893). Unwaith eto, mae cymysgedd o fanylion, gyda rhifau 74-78 yn dai deulawr a hanner traddodiadol, gyda dormerau mawr goleddfol wedi'u gorchuddio â llechi (nodwedd amlwg o'r dref), teils crib clai coch addurnol, simneiau brics, gerddi blaen bychain, amgaeedig a chyrtiau blaen gyda rheiliau haearn gyr a gatiau â gorffeniad rendr llyfn gyda mowldinau plastr.

4.4.40 Mae rhifau 54 - 72 yn ymddangos fel parau, yn dai tref, deulawr a hanner o ddechrau'r 20fed, gyda mowldinau dal diferion, cynteddau, canopïau coed, rhai gydag arddulliau ffenestri traddodiadol, talcenni yn ymestyn allan oddi wrth y to a'r cwbl wedi'u peintio mewn lliwiau amrywiol. Mewn cyferbyniad llwyr, mae rhif 52 (Fishguard Vets) yn dŷ deulawr syml mewn arddull bwthyn, sydd wedi'i osod yn ôl o weddill y rhes ac sydd â'i raddfa'n awgrymu'i fod wedi'i adeiladu ddiwedd y 18fed neu ddechrau'r 19eg ganrif (neu'n gynharach).

4.4.41 Mae diffyg llinell adeiladu bendant yn dangos gwahanol gyfnodau o ddatblygiad. Mae'r adeilad y tu ôl i'r filfeddygfa o ddiwedd y 19eg ganrif - byddai gatiau wedi bod ar y pileri carreg wrth y fynedfa, ac mae'n wal derfyn (a amlygir ar y map) yn nodwedd o'r Ardal Gadwraeth ond nid yw o fewn y ffin bresennol.

4.4.42 Adeiladwyd yr eiddo ar ochr ddeheuol y stryd, o rifau 77-21, rhwng y 18fed a'r 19eg ganrif. Maent yn dai deulawr yn bennaf, gydag amrywiaeth ar hyd teras o fanylion ffenestri a mowldinau plastr addurniadol. Ar hyd ochr ddeheuol y Stryd Fawr o rifau 77- 41 mae ganddynt i gyd erddi blaen bychain, amgaeedig gyda waliau amgáu cerrig a rheiliau haearn gyr a gatiau wedi’u peintio, ond o rif 39 i ganol y dref, nid oes unrhyw erddi blaen.

4.4.43 Mae Park Street yn stryd ochr gul gydag ychydig iawn o eiddo unigol, ar raddfa fwy, o unrhyw werth pensaernïol.





4 a 6 (Greenwood House) Park Street (4.6.15)

4.4.44 Mae tafarn o’r enw’r Cambrian ar gornel Hamilton Street, gydag eiddo arall yn ffinio arni ac yn rhedeg ar hyd Park Steet. Mae'r adeiladau ar fin y ffordd ac mae eu harddull yn syml, gyda llinell grib a bondo di-dor, teils crib coch, clai, corn simnai tal, to llechi, a ffenestri codi 2 baen traddodiadol.

4.4.45 Yna mae’r llinell adeiladu’n symud yn ôl tua 1500mm i  ffryntiad  rhifau 2, 3 a 4, sy'n fythynnod deulawr, rhestredig Gradd 2, a adeiladwyd o gerrig ddechrau'r 18fed ganrif ac sydd â’r rhan fwyaf o nodweddion traddodiadol yn gyfan. I'r chwith mae to is yn ymestyn dros y bwlch gwreiddiol rhwng y ddau eiddo, drws syml â ffenestr lintel wydrog uwch ei ben a ffenestr godi fechan sy’n awgrymu dilyniant hanesyddol. Mae'r ardd flaen wedi'i hamgáu gan wal gadarn gyda phen crwm, wedi’i rendro ac mae hanner yr adeilad yn wedi’i guddio gan eiddew.



Walter Brearley House (06.04.2015)

4.4.46 Mae gan Walter Brearley House ffryntiad o wal gerrig a gardd fechan. O bosibl, hwn yw un o'r tai hynaf yn Abergwaun ac mae gan y tŷ hardd rhestredig Gradd II

hwn hanes diddorol sy'n dyddio'n ôl i'r 18fed Ganrif. Bu unwaith yn dafarn gyda'i fragdy a’i ddistyllfa jin ei hun ac yn ddiweddarach bu’n eiddo i’r masnachwr gwlân a chotwm, Walter Brearley, ac er cof amdano ef y mae'r tŷ wedi’i enwi. Yn ystod y degawdau diwethaf mae’r tŷ wedi bod yn breswylfa breifat, gyda ffasâd rendr llyfn, bandiau plastr o amgylch y ffenestri a chonglfeini, ffenestri codi, to llechi, simneiau cerrig a nwyddau dŵr glaw haearn bwrw.

4.4.47 Mae Park House yn adeilad deulawr, carreg arall o'r 18fed ganrif. Mae ganddo do llechi gyda goleddf 40 gradd, simneiau cerrig, ffasâd cerrig cyrsiog gyda chonglfeini cerrig nadd, ffenestri codi 12 paen, lolfa haul, sy'n wynebu'r gorllewin, a adeiladwyd ar y blaen a gardd ffrynt wedi’i hamgylchynu gan wal galchfaen.

4.4.48 Er bod y stryd hon wedi'i lleoli ychydig oddi wrth ganol y dref mae yma ymdeimlad o ffordd wledig i'r ardal hon, ac mae'r ffaith fod y teras hwn yn wynebu'r de yn ychwanegu at hudoliaeth yr ardal wrth i haul y prynhawn fachlud y tu ôl i’r coed ar ochr arall y ffordd gan daflu cysgodion brith dros yr adeiladau.

4.4.49 I'r dde o Park Street, mae ffin yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys 9 Park Street a rhif 4 Hottipass Street. Mae'r eiddo hyn wedi cael eu moderneiddio gan golli’r manylion hanesyddol i gyd, ac am y rheswm hwn ni ddylent bellach fod o fewn yr Ardal Gadwraeth.



Eiddo na ddylai fod yn yr Ardal Gadwraeth (04.06.2015)

4.4.50 Wrth droi i'r chwith o Park Street i mewn i Kensington Street mae rhes o fodurdai heb unrhyw rinwedd gweledol, ond yna mae rhes o dai o ddechrau'r 19eg ganrif sydd i gyd yn agor i'r stryd. Mae yma amrywiaeth o fythynnod deulawr tlws gyda llinell grib di-dor, ffenestri codi fertigol, toeon llechi a simneiau brics, ac mae golygfa hyfryd o'r môr wrth i chi fynd i lawr y ffordd tuag at Main Street.





Eiddo Kensington Street a modurdai (4.6.15)

4.4.51 Mae cymeriad yr ardal hon hefyd yn deillio o'r amrywiaeth o led yr eiddo, arddull y  ffenestri, ynghyd â'r gwahanol liwiau. Mae'r ffordd yn gul iawn ar ben isa'r stryd ac i'r chwith mae lôn fach gul sy'n ynysu rhifau 32 a 34 Main Street, a thri bwthyn bach a adnewyddwyd yn ddiweddar yn cuddio i lawr y lôn fach gul.

4.4.52 Mae cyffordd  Hamilton Street a Main Street yn gornel eang sydd â nifer o adeiladau diddorol ar wahanol onglau i'w gilydd. Mae rhif 2 yn cael ei gysgodi gan dalcen rhif 12 Main Street, gan bwysleisio'r gwahaniaeth ym maint yr adeiladau.



Cornel Main Street a Hamilton Street (05.06.2015)

4.4.53 Hefyd ar Hamilton Street mae teras llac o fythynnod carreg deulawr traddodiadol, sydd â llawer o nodweddion gwreiddiol, ond nid yw'r llinell adeiladu yn dilyn y tro yn y ffordd ac mae'n gorffen wrth rif 19 gydag ardal agored o flaen hen ysgoldy Fictoraidd, sydd ar hyn o bryd angen ei adnewyddu.

4.4.54 Mae gan rifau 1-13  rywfaint o fanylion pert, gan gynnwys gwaith cerrig wedi'i bwyntio gyda manylion plastr, canopïau uwchben drysau a physt ffenestri addurniedig. Ar un adeg roedd rhif 15 yn dafarn o'r enw'r Ivy Bush. Mae gan rif 1 ffryntiad deulawr a ffenestri dormer mawr gyda blaenau carreg. Mae ardal fewnol y bloc hwn o eiddo wedi aros yn gymharol annatblygedig ac mae'n cynnwys amrywiaeth o adeiladau hen ysgol Fictoraidd, siediau ac adeiladau allanol, gyda rhandiroedd yn y canol, a llwybr rhwng 5 a 7 Hamilton Street sy'n agor allan i ardal anniben gyda siediau brics a thai allan. Mae yna hefyd fynedfa rhwng rhifau 4 a 6 Kensington Street, ond mae hon, sy'n arwain i erddi preifat, bellach wedi'i chau gan ddau ddrws sydd wedi'u cloi.

4.4.55 Ar ochr ogleddol Main Street mae rhes o dai Sioraidd, rhai ohonynt o ansawdd dda, megis Gwesty'r Manor House gyda'i  bortico cymesur.




Ffryntiad Main Street (5.6.15) [Gwesty'r Manor House yn las golau]

4.4.56 Yn agos at ymyl y ffordd, ar ochr ddeheuol Main Street mae adeiladau dau a thri llawr o'r  18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif, rhai ohonynt â ffenestri siopau bychain.  Mae tŷ tafarn hanesyddol o'r enw'r Globe Inn (a ail-agorwyd yn ddiweddar) yn rhifau 26 a 28,  rhan gulaf y ffordd. Mae'r adeilad hwn wedi'i osod yn ôl rhywfaint o'r bloc tri llawr sydd i'r dde, ac yn wahanol iawn o ran maint i'r adeiladau cyfagos. Nid yw Main Street, yng nghyffiniau rhifau 16 – 34, yn hylaw iawn i gerddwyr gan fod y ffordd a'r palmentydd yn gul, heb y posibilrwydd o'u gwella, ac felly mae cerddwyr yn agos iawn at y traffig.

4.4.57 Y ffordd hon yw prif ffordd  yr arfordir i Drefdraeth a Dinas, (A487), ac o'r herwydd, mae bob amser yn brysur. Mae llawer o lorïau a bysiau, ac os oes cerbyd wedi'i barcio ar ochr y ffordd, mae tagfeydd traffig yn ffurfio'n gyflym. Nid yw'r siopau bach, o droad y ganrif, ar yr ochr ddeheuol yn cael eu defnyddio bellach, ac yn gyffredinol mae ffasadau'r eiddo hyn yn dioddef o allyriadau cyson y traffig ac maent yn anodd cael mynediad atynt a rhoi sgaffald er mwyn eu cynnal a'u cadw.

4.4.58 Mae Tower Hill yn rhedeg tua'r dwyrain o Main Street, o ben Hill Terrace, ac mae yno deras o saith o dai tref Sioraidd, a Chapel o'r 19eg ganrif, sydd i gyd ond un yn rhestredig Gradd 2. Mae eu safle uchel yn eu gwneud yn weladwy o Penslade ar draws cwm Slade ac o Hill Terrace.



Hill Terrace a Tower Hill, o Penslade (23.11.2015 wedi'i chwyddo)

**<u>Ardal Nodwedd 3 Crynodeb ac Argymhellion</u>**

**Yn yr ardaloedd preswyl a nodwyd ac a ddisgrifiwyd mae amrywiaeth enfawr o adeiladau, o ran maint a dyluniad, o fythynnod deulawr syml o ganol y 18fed ganrif i eiddo arddull 'villa' mawreddog ddechrau'r 20fed ganrif fel y gwelir ar Penslade.**

**Yn gyffredinol mae'r stoc breswyl mewn cyflwr da heb unrhyw adfeilion, ond, fel gyda llawer o adeiladau o'r dref, mae rhai manylion traddodiadol wedi'u colli, ac yn enwedig, newidiwyd llawer o'r ffenestri pren wedi'u peintio am rai Upvc.**

**Wrth gwrs, mae'n bosibl newid hyn, a gellid adfer llawer o'r manylion a gollwyd, os y gellid darbwyllo'r perchnogion. Mae'n bwysig cyflwyno canllawiau clir ar yr hyn sy'n dderbyniol o ran atgyweirio ac adfer.**

**Argymhellir diwygiadau i ffin yr Ardal Gadwraeth gan fod sawl eiddo preswyl sydd ddim bellach â chymeriad arwyddocaol.**

**O fewn yr Ardal Gadwraeth dylid cael rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gosod dysglau lloeren a gwifrau a cheblau'r cyfleustodau ar brif ffasâd yr adeiladau, ond gall gwifrau hanfodol gael eu cuddio drwy eu rhedeg dan linell y bargod.**

**Dylai'r defnydd o ddeunyddiau yn nhir y cyhoedd fod yn gydnaws â chymeriad hanesyddol yr ardal a dylid ceisio lleihau arddulliau a dylunio modern.**

### 4.5 Adeiladau'r Ardal Gadwraeth

*Mathau o Adeiladau*

4.5.1 Nid oes unrhyw Henebion Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth ond mae gan y dref nifer o adeiladau rhestredig Gradd II yn ogystal ag adeiladau heb eu rhestru sy'n cyfrannu at y strydlun ac yn ychwanegu diddordeb o fewn yr Ardal Gadwraeth.

Mae adeiladau a therasau unigol sydd werth eu crybwyll am eu bod yn cyfrannu at gymeriad cyffredinol y dref, sef:

- Gwesty Abergwaun
- Gwesty'r Coach House
- Tafarnau'r  Ship a'r Anchor
- Institiwt Eglwys y Santes Fair, gyferbyn â'r eglwys
- Hen Dŷ'r Ysgol Fictoraidd, wedi'i osod yn ôl o'r ffordd ar Hamilton Street
- Carreg yr Eos – tŷ ar waelod y Slade
- Gilfach – tŷ mawr i'r dwyrain o Hill Terrace
- Rhif 1 Vergam Terrace (adeilad manwerthu)
- Y ddau deras a Vergam Terrace - rhifau 1- 24
- Siopau manwerthu ar y Wesh - rhifau 17 - 31
- Bythynnod Bank Terrace
- Penslade - rhifau 2 - 13
- Siop Fictoraidd ar y Wesh

*Adeiladau Rhestredig*

4.5.2 Mae adeilad rhestredig yn un sy'n cael ei gynnwys ar Restr Statudol y llywodraeth o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig. Mae'r adeiladau hyn yn cael eu diogelu gan y gyfraith ac mae angen caniatâd oddi wrth Gyngor Sir Penfro cyn gwneud unrhyw waith addasu, ymestyn neu ddymchwel. Mae gan Ardal Gadwraeth  Abergwaun 106 o adeiladau rhestredig, dim un Gradd I, 1 Gradd II * a 105 Gradd II. Adeiladwyd y rhan fwyaf o adeiladau rhestredig yr Ardal Gadwraeth yn y 19eg ganrif.

**Adeiladau mewn Perygl**

4.5.3 Mae nifer o adeiladau hanesyddol sydd angen gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio arferol, yn enwedig eiddo masnachol gwag yng nghanol y dref. Yn ogystal, mae nifer o'r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth hefyd yn dangos arwyddion o esgeulustod, dadfeiliad a dirywiad oherwydd diffyg cyllid neu gynnal a chadw ac mae'r rhain yn difetha cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Efallai bydd cyfleoedd cyllido ar gyfer adeiladau hanesyddol ar gael gan Cadw neu ffynonellau eraill, er gall y meini prawf cymhwyso fod yn llym[15].

4.5.4 Nid oes unrhyw adeiladau ar y Gofrestr Adeiladau Mewn Perygl. Serch hynny, mae wyth strwythur neu adeilad sydd yn cael eu hystyried yn adeiladau bregus ar y gofrestr, ac fe'u rhestrir isod. Maent i gyd angen mân waith trwsio a cynnal a chadw, heblaw am eitem 5, 22 Main Street.

1. Y garreg arysgrifedig ym mynwent Eglwys y Santes Fair
2. Rheiliau mynwent Eglwys y Santes Fair
3. Yr adeilad masnachol gyda blaen siop, rhif 1 Main Street
4. Rhif 26 Main Street, adeilad masnachol
5. Rhif 22 Main Street, sy'n rhan o res o dri eiddo (angen trwsio a cynnal a chadw mân a sylweddol)
6. 16 Hamilton Street, adeilad masnachol
7. Y Farmers Arms, Sgwar Abergwaun
8. 9 Y Stryd Fawr, adeilad masnachol

4.5.5 Hefyd, mae nifer o adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth sydd angen sylw, gan gynnwys yr eiddo yng nghefn 4 Main Street, yr hen ysgol gynradd a 17 Y Stryd Fawr.

[15] Cadw website http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/historicbuildings/?lang=en as at Sept 16






Eiddo sydd angen eu trwsio neu'u hadfer   (23.11.2015)

*Adeiladau allweddol heb eu Rhestru / adeiladau cadarnhaol*

4.5.6 Yn gyffredinol ceir yr argraff o amrywiaeth eang o led adeiladau, uchder a lliwiau ac ar y cyfan mae'r adeiladau yn cael gofal da ac maent mewn cyflwr da. Mae'r mwyafrif o'r adeiladau yng nghanol y dref yn rhestredig, Gradd II.

4.5.7 Yn ogystal â nifer o'r adeiladau rhestredig, mae gan yr Ardal Gadwraeth nifer o adeiladau heb eu rhestru sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal. Yn gyffredinol, mae'r adeiladau 'cadarnhaol' hyn yn adeiladau unigol neu grwpiau o adeiladau sy'n cadw'r cyfan, neu gyfran uchel, o'u manylion pensaernïol gwreiddiol ac sy'n ychwanegu diddordeb a bywiogrwydd i olwg yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 70 a 72 Y Stryd Fawr
- 56 i 60 Y Stryd Fawr
- 2 Y Stryd Fawr
- Institiwt Eglwys y Santes Fair
- 16 Kensington Gardens
- Bwthyn Bach, 2 Y Wesh
- Bethel, Eglwys y Bedyddwyr Saesneg, Y Wesh

*Deunyddiau Adeiladu a Manylion Lleol*

4.5.8 O fewn yr Ardal Gadwraeth, mae'r deunyddiau adeiladu traddodiadol fel a ganlyn:

- Waliau: calchfaen a gloddiwyd yn lleol ar gyfer y waliau, amrywiaeth o fowldinau plastr addurniadol a waliau amgáu o gerrig,  ffasadau wedi'u rendro, rhai gyda manylion plastr.

- Toeon: mae llechi naturiol ar gyfer toeon a ffenestri dormer, simneiau brics coch a melyn neu galchfaen a theils crib clai coch addurnol yn nodwedd gyffredin yn y dref. Mae gwahanol uchderau to a lleiniau ymyl, rhai gyda ffenestri dormer a rhai hebddynt.

- Ffenestri: ffenestri dormer mawr, rhai ohonynt yn rhan o'r ffasâd, ffenestri codi fertigol yn bennaf - rhai gyda fframiau 4 paen, rhai gyda 12 paen, felly rhaid pwysleisio nad oes un disgrifiad pensaernïol ar gyfer yr holl adeiladau.

- Drysau: canopïau coed addurnedig ar draws mynedfeydd

*Manylion lleol yn cynnwys*:

• Rheiliau: amrywiaeth o reiliau haearn gyr a giatiau o wahanol arddull.

• gwaith addurniedig o haearn gyr a bwrw, nwyddau dŵr glaw haearn bwrw

*Blaen siopau, hysbysebion ac arwyddion*

4.5.9 Mae nifer o flaenau siopau a newidiwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn ogystal â rhai enghreifftiau da o atgynhyrchiadau modern. Fodd bynnag, mae yna nifer o flaenau siopau sydd wedi'u 'moderneiddio' gan ddefnyddio deunyddiau ac arddull amhriodol, yn enwedig ar hyd y Wesh.

Y problemau mwyaf cyffredin yw:

- Ffasgau gor ddwfn sy'n cuddio nodweddion gwreiddiol.
- Lliwiau llachar.
- Llythrennau plastig anaddas.
- Goleuadau anaddas.
- Deunyddiau adeiladu anaddas
- Arwyddion ffyrdd a gwifrau telegraff ar bolion yn tynnu oddi ar gymeriad adeiladau, yn arbennig yng nghyffiniau Neuadd y Dref ar y Sgwâr.

4.5.10 Arwyddion ffyrdd a goleuadau traffig, er yn angenrheidiol i reoli symudiad traffig a cherddwyr, weithiau wedi'u lleoli'n wael mewn perthynas ag adeiladau rhestredig ac yn cyfrannu at annibendod gweledol.

***Pensaernïaeth eglwysig***

4.5.11 Yn ystod y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif bu twf cyflym ym mhoblogaeth Abergwaun ac adeiladwyd nifer o gapeli gwahanol enwadau i ddarparu ar gyfer yr amrywiaeth o enwadau crefyddol. Adeiladwyd y capeli hyn gan y gymuned i gryn raddau ac maent yn rhan annatod o hanes a datblygiad y dref. Maent hefyd yn rhan amlwg o gymeriad a diddordeb arbennig y strydlun.

**Eglwys y Santes Fair**

4.5.12 Adeiladwyd eglwys y Santes Fair yn 1857, er ei bod yn debygol bod y sylfeini’n dyddio'n ôl i'r canol oesoedd. Yr unig nodwedd canoloesol sy’n dal yno heddiw yw pâr o fwâu cerfiedig yn wal ogleddol corff yr eglwys, a ddaeth o'r is-gapel yn Llanfartin. Mae’r *French Stone*, carreg arysgrifedig yn dyddio o'r Oesoedd Tywyll, yn y fynwent.

**Capel Bedyddwyr Hermon**

4.5.13 Adeiladwyd y capel ym 1776 ar gyfer cymuned y Bedyddwyr a’i adnewyddu ym 1832. Mae’r fynedfa i’r capel ar y talcen, gyda ffasâd clasurol stwco a'r defnydd cynharaf o fwa enfawr yn hollti'r pediment, dyluniad gan Daniel Evans yn ôl pob tebyg.

**Bethel - Capel y Bedyddwyr Saesneg**

4.5.14 Adeiladwyd y capel hwn, yn 1908, o garreg gyda gorffeniad rendr a tho llechi. Mae'r ffasâd rhwysgfawr, gyda phediment toredig yn ymestyn dros ffenestr ddwbl bwa yno hyd heddiw. Mae’r capel wedi’i osod yn ôl o linell adeiladu’r stryd ac mae wal isel o’i flaen gyda giatiau a rheiliau haearn gyr dwbl, a llwyni a choed o fewn tiroedd. Mae'r capel rhwng 40-42, Y Wesh.

**Capel Presbyteraidd Ebeneser**

4.5.15 Adeiladwyd y capel a saif, yn wynebu’r gogledd, ar ben draw Tower Hill, ym 1759. Cafodd ei adnewyddu yn 1788, 1800, 1828 a 1889. Mae ganddo orffeniad carreg wedi’i rendro gyda manylion plastr addurniadol o gwmpas ffenestri bwaog y llawr cyntaf, dau bortsh ffrynt blwch, feranda tri bae rhwng colofnau haearn a rheiliau haearn gyr addurnedig a giât o’i flaen.

**Ffactorau negyddol (maint yr ymyrraeth neu ddifrod)**

4.5.16 Mae nifer o elfennau sy'n tynnu oddi ar gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac sy'n cynnig cyfleoedd posibl ar gyfer eu gwella. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Effaith gronnol newidiadau ac estyniadau i adeiladau hanesyddol sydd wedi arwain at golled sylweddol o nodweddion traddodiadol, erydu cymeriad a golwg arbennig yr ardal;
- Rhywfaint o dir y cyhoedd wedi'i ddylunio, ei adeiladu a'i gynnal yn wael, gan gynnwys gosod wynebau caled anaddas, rheiliau gwarchod, biniau sbwriel a manylion tir y cyhoedd;
- Datblygiad a moderneiddio drwy adnewyddu, anghydnaws;
- Newidiadau ansensitif i flaenau siopau gan gynnwys arwyddion anghydnaws;
- Gormod o symudiad traffig o gwmpas y dref, ynghyd â pharcio anghyfreithlon ar y stryd yn achosi tagfeydd traffig;
- Parseli o dir a esgeuluswyd ac eiddo mewn cyflwr gwael, mewn perchnogaeth breifat;
- Adeiladau manwerthu gwag a'r dirywiad yn eu golwg;
- Mae Main Street yn rhan o ffordd yr arfordir i Drefdraeth ond mae'n gul iawn o flaen rhifau 16 – 34.  Mae'r cynnydd yn llif y traffig wedi golygu lleihad yn symudiad cerddwyr yn yr ardal hon, ac o'r herwydd, golled o ran cyfle manwerthu
- Hen ysgol gynradd wag ar y Wesh

4.5.17 Gellid lleihad graddau'r golled, yr ymyrraeth a'r difrod os rhoddir sylw penodol i ddylunio sensitif, y dewis o ddeunyddiau adeiladu a graddfa'r datblygiad.

4.5.18 Collwyd manylion pensaernïol yn raddol ar rai o'r terasau, gyda rhai ffenestri dormer yn cael eu hail ddylunio, colli blaenau siopau ac arwyddion siopau traddodiadol, a thoreth o ffenestri Upvc mewn rhai ardaloedd yn gwanhau effaith bensaernïol hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.

4.5.19 Mae datblygiadau mwy modern o fewn neu'n agos at yr Ardal Gadwraeth yn tueddu i gael effaith negyddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

4.5.20 Siop Peacocks ar y Stryd Fawr yn ymyl tafarn y Coach House, ac yn agos at y Sgwâr, yn tynnu oddi wrth apêl hanesyddol y dref gan fod ganddi ffryntiad modern gyda tho fflat a'i bod wedi'i hadeiladu â deunyddiau modern. Mae gan y siop arwyddion modern ac amhriodol. Nid yw siop y Co-Op yn cael ei chynnwys yn yr Ardal Gadwraeth, ond mae'n adeilad amlwg iawn oherwydd ei maint ac fel y'i gwelid o'r Stryd Fawr, sy'n rhan o'r Ardal Gadwraeth.

4.5.21 Mae'r adeilad masnachol rhwng rhifau 8 a 12 Main Street, a adeiladwyd yn gynnar yn y 20fed ganrif,ond a gafodd ei foderneiddio yn ddiweddarach gan ddefnyddio manylion a deunyddiau amhriodol, yn lliw cryf, ac mae ei siâp anghymharus yn ei osod yn gyfan gwbl ar wahân i weddill yr adeiladau yn y cyffiniau.

**Ardaloedd niwtral**

4.5.22 Mae datblygiadau mwy modern yn yr Ardal Gadwraeth yn tueddu i gael effaith niwtral ar yr Ardal Gadwraeth, heb na chadw na gwella’i chymeriad. Mae rhai o'r safleoedd / adeiladau hyn yn cynnwys:

- Ar bwys ac yng nghefn adeilad Institiwt y Santes Fair - mae’r ardal wedi dirywio am nad yw’n cael ei chynnal - mae'n edrych yn anniben iawn wrth edrych arni o Main Street.
- Mae safle datblygu gwag ar Hamilton Street.
- Mae'r strydlun a'r deunyddiau yng nghyffiniau Neuadd y Dref wedi’u dylunio’n wael ac nid ydynt yn adlewyrchu pwysigrwydd y llecyn bach agored hwn fel lloches i gerddwyr a mynedfa i brif adeilad cyhoeddus a dinesig y dref.
- Mae angen ail-ddylunio’r ardal o flaen yr hen ysgol er mwyn creu pwyntiau mynediad clir i dri safle, safle'r ysgol, y modurdai y tu ôl i 17-25 Y Wesh a lôn fach y Chimneys.
- Mae'r ardal ar waelod y Slade ar hyn o bryd yn cael ei thanreoli, a byddai'n lle da ar gyfer dehongli hanes lleol ac fel man eistedd.
- Mae'r rhodfa dan do ger Gwesty Abergwaun yn cael ei ddefnyddio'n dda, ond nid yw'n creu argraff dda gan ei fod yn dywyll, mae wedi’i fyrddio ar hyn o bryd ac nid oes ganddi unrhyw fanylion diddorol. Byddai ail-ddefnyddio'r adeilad sy’n wag ar hyn o bryd yn help i adfywio'r ardal hon.

4.5.23 Ynghyd â'r adeiladau a safleoedd negyddol a nodwyd, gall ardaloedd niwtral hefyd gynnig cyfleoedd gwella posibl o fewn yr Ardal Gadwraeth.

**4.6 Crynodeb o Nodweddion yr Ardal Gadwraeth**

4.6.1 Mae Abergwaun ar ben ac yng nghysgod penrhyn Pencaer. Mae’r harbwr cysgodol ar aber yr Afon Gwaun a'r dyffrynnoedd serth yn gwneud hwn yn lleoliad da ar gyfer anheddiad dynol, gan gynnig llawer o gyfleoedd i ymelwa ar adnoddau naturiol yr ardal.

4.6.2 Datblygwyd yr harbwr cysgodol ar gyfer pysgota a masnachu arfordirol, adeiladu cychod, chwarela, a defnyddiwyd all-lif yr afon ar gyfer gweithgareddau’r felin a chynhyrchu brethyn gwlân a chrochenwaith. Arweiniodd yr holl weithgaredd hon, ynghyd â magu anifeiliaid a thyfu cnydau ar dir amaethyddol da’r ardal, at yr angen am ardal fasnach a datblygodd marchnad ac esblygodd tref o’i hamgylch.

4.6.3 Creodd y cynnydd diweddarach mewn adeiladu llongau a datblygiad y cysylltiadau rheilffordd a phorthladd i Iwerddon, yr angen am fwy o dai a busnesau, ynghyd â chapeli, ysgolion ac adeiladau dinesig. Mae'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth yn adlewyrchu’r datblygiad hwn gyda’r amrywiaeth eang o adeiladau yn dyddio o ganol yr 18fed i ddechrau'r 20fed ganrif wedi datblygu o dipyn i beth o ganol y dref ac ymledu allan.

4.6.4 Tystiolaeth bellach o ddatblygiad y dref yw culni a throadau strydoedd canol y dref, sydd ddim yn ffafriol o gwbl i ddulliau modern o deithio ar y ffordd.

4.6.5 Oherwydd y topograffi, mae’r dref yn gogwyddo lawr tuag at y môr ac mae hyn yn rhoi llawer o olygfeydd o, ar draws a thros doeon diddorol o bob siâp a maint, sy’n cynnwys cymysgedd ddiddorol o ffenestri dormer manwl gyda thoeon goleddfol , simneiau cerrig neu frics addurniedig a theils crib ffansi.

4.6.6 Mae'r stoc adeiladau mor amrywiol fel nad yw un disgrifiad pensaernïol yn addas ar gyfer y cwbl, ond mae llawer o fanylion brodorol tebyg, fel y defnydd o ddeunyddiau a gynhyrchir yn lleol megis calchfaen a gloddiwyd yn lleol a brics coch, llechi llwyd las tywyll ar gyfer toeon, ffenestri codi fertigol, pren a osodwyd yn ôl tua 100 mm o’r ffasadau, nwyddau dŵr glaw haearn bwrw, rendr, rhywfaint o waith plastr manwl, lliwiau paent llachar a llawer o erddi blaen bychain wedi’u hamgáu gan waliau cerrig gydag amrywiaeth o reiliau a giatiau haearn gyr.

4.6.7 Mae gan derasau werth grŵp pwysig. Mae'r mwyafrif ohonynt wedi cadw’r rhan fwyaf o’r manylion uno, ac mae  llawer o adeiladau unigol sy'n cyfrannu at ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac er bod rhai ardaloedd lle bu colled sylweddol ran manylion brodorol a bod llawer o ddefnydd o unedau ffenestr Upvc, yn gyffredinol mae ardaloedd canol y dref a’r ardaloedd preswyl, wedi cadw rhyw hudoliaeth yn amrywiaeth ac arddull eu hadeiladau.

4.6.8 Mae digon o fanylion traddodiadol wedi’u cadw er mwyn sicrhau bod cymeriad a diddordeb arbennig y dref yn dal i fod yn amlwg, a gallai'r golled o ran manylion, mewn llawer o achosion, gael ei gwrthdroi.

# 5. Adolygiad Ffiniau ac Argymhellion

5.1.1 Ffurfir cymeriad ac ansawdd treflun tref forwrol hanesyddol Abergwaun gan gyfuniad o'r ffurf adeiledig a'r dyffryn coediog serth gyda'i fythynnod, sy'n ymledu am yr arfordir. Mae'r ffin yma'n gysylltiedig â nodweddion topograffyddol a gyda Penslade sydd y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth gan fwyaf. Mae'r ardal agored yn ymledi ar hyd yr arfordir ac yn darparu byffer pwysig yn y golygfeydd o harbwr Cwm Abergwaun. O dir uwch yn Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun, gellir gweld tref Abergwaun ar ben yr ymyl arfordirol. sy'n cael ei chroesi gan lwybrau lle geir golygfeydd draw am Gwm Abergwaun.

5.1.2 Mae ymyl ddwyreiniol y ffin yn cysylltu ag Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun ac fe ddylai aros yn ddigyfnewid. Mae'r ffiniau ar hyd ymyl ddeheuol yr Ardal Gadwraeth yn gyffredinol yn dilyn cefnau eiddo ac eithrio'r rhan lle y mae'n mynd yn ôl i Hamilton Street, Kensington Street a Park Street. Ym mhen pellaf yr ardal Gadwraeth, mae sawl eiddo wedi'u hadnewyddu gan ddefnyddio deunyddiau modern ac argymhellir newid y ffin yn yr ardal hon.

5.1.3 Ar ochr ogleddol y Stryd Fawr, mae angen newid bach i'r ffin i gynnwys y wal gerrig ym Mharc Lota, yng nghefn eiddo'r Wesh. Ymhellach i'r gogledd ar hyd y Wesh ac i mewn i Hamilton Terrace, dylid cadw'r ffin yn dynn er mwyn sicrhau bod adeiladau o gymeriad hanesyddol yn cael eu cadw o fewn yr Ardal Gadwraeth.

5.1.4 Fel rhan o'r broses Gwerthuso Cymeriad, gwnaethpwyd arolwg trylwyr o ffiniau presennol yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys asesiad o:

- Hanes yr ardal a'i datblygiad
- Golwg y gwahanol ardaloedd nodwedd
- Dadansoddiad o berthnasau gofodol
- Cyflwr a ffabrig yr adeiladau
- Effaith negyddol / llwyddiannus arfer rheolaethau o fewn yr Ardal Gadwraeth

5.1.5 Mae'r broses o ail-werthuso ffiniau presennol yr Ardal Gadwraeth wedi nodi rhai newidiadau posibl, gyda'r diwygiadau i eithrio lleoliadau lle mae adeiladau neu safleoedd sydd ddim bellach yn rhan annatod o ansawdd a ffurf yr Ardal Gadwraeth ei hun ac i gynnwys tir ac eiddo sydd yn cyfrannu at nodweddion arbennig yr ardal. Mae'r map Diwygiadau i'r Ffiniau (arfaethedig) yn Atodiad 1 yn dangos y newidiadau arfaethedig i ffiniau Ardal Gadwraeth Abergwaun a drafodwyd ynghynt yn y ddogfen Gwerthuso Cymeriad Ardal Gadwraeth.

**Argymhellion diwygio'r ffiniau**

5.1.6 Mae ffin ddeheuol yr Ardal Gadwraeth yn rhedeg i'r de o Park Street ac yn cynnwys rhan o Hottipass Street ac yn gyffredinol dylai'r ffin hon aros yn ddigyfnewid. Fodd bynnag, ar ymyl yr Ardal Gadwraeth yn Hottipass Street mae sawl eiddo wedi'i adnewyddu yn ddiweddar gan ddefnyddio deunyddiau modern (e.e. rendr sment 'spar dash', ffenestri gwydr dwbl, a nwyddau dŵr glaw pvc). Mae'r adeiladau hyn ar ddwy gornel o boptu ardal sydd wedi'i gorchuddio â choncrit ac nid ydynt bellach yn gwneud cyfraniad dilys i'r strydwedd.

**Argymhelliad 1: bod ffin yr Ardal Gadwraeth yn cael ei diwygio i eithrio rhif 9 Park Street a rhif 4 Hottipass Street a'u llibartau.**

5.1.7 Wrth fynd ar hyd y Stryd Fawr o ganol y dref i'r ardal breswyl, mae datblygiad modern wedi bod yng nghefn yr eiddo sy'n wynebu'r Stryd Fawr. Yn benodol, byngalo newydd sydd wedi'i adeiladu yng nghefn rhif 42 y Stryd Fawr, sy'n disodli hen adeilad allanol, ac fel datblygiad cwbl fodern, nid yw'n haeddu cael ei gynnwys yn yr Ardal Gadwraeth.

**Argymhelliad 2: bod ffin yr Ardal Gadwraeth yn cael ei diwygio i eithrio'r datblygiad modern y tu cefn i 42 Stryd Fawr**

5.1.8 Mae Parc Lota i'r gogledd o'r Stryd Fawr. Yn agos i gefn 52 Y Stryd Fawr, mae wal rwbel calchfaen dwy fetr o uchder yn rhedeg ar hyd ffin ddeheuol Parc Lota ac yn agos at y llwybr. Mae ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth yn dilyn llinell yr adeiladau amrywiol y tu cefn i 52-72 Y Stryd Fawr, ac nid yw'n cynnwys y wal hon. Mae'r wal wedi'i hadeiladu o rwbel calchfaen ac yn gwella cymeriad y rhan hon o'r Abergwaun oherwydd ei deunyddiau a'i safle.

**Argymhelliad 3: bod ffin yr Ardal Gadwraeth yn cael ei diwygio i gynnwys wal gerrig rwbel calchfaen sy'n rhedeg ar hyd ffin ddeheuol Parc Lota.**

5.1.9 Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r ffin yn golygu lleihad cyffredinol ym maint yr Ardal Gadwraeth, gan dynnu ffin dynnach o gwmpas yr ardaloedd arbennig hynny sy'n parhau i fod yn bensaernïol neu hanesyddol ddiddorol. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r ffin yn lleihau maint yr Ardal Gadwraeth i 18.30 Ha.

5.1.10 Er mwyn cadw neu wella cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn rhoi sylw i'r deunyddiau, arddull, manylion, ffurf, graddfa, to a llinell adeiladu bresennol, er mwyn iddynt fod yn gydnaws â'u hamgylchoedd. Dylai golygfeydd pwysig a mannau agored sy'n bodoli eisoes gael eu gwarchod.

# 6. Crynodeb o'r Materion dan sylw

6.1.1 Mae'r gwerthusiad wedi nodi nifer o faterion sy'n cael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Y materion hyn fydd wrth wraidd y cynigion rheoli ar gyfer yr Ardal Gadwraeth, a fydd yn nodi cyfleoedd posibl, pwysig ar gyfer gwella a gwarchod yr ardal.

### Safleoedd ac adeiladau negyddol / niwtral

6.1.2 Mae'r gwerthusiad yn nodi adeiladau a safleoedd penodol 'negyddol' h.y. yr adeiladau a'r safleoedd hynny sy'n tynnu oddi ar gymeriad a golwg arbennig yr Ardal Gadwraeth ac sydd felly'n cynnig cyfle ar gyfer eu gwella. Yn ogystal, ar y cyfan, ychydig iawn mae datblygiadau mwy modern wedi'u gyfrannu i gymeriad yr ardal, o ran ei gadw na'i wella. O'r herwydd, mae llawer o'r adeiladau mwy modern yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u nodi naill ai fel adeiladau neu safleoedd negyddol neu niwtral.

### Colli manylion pensaernïol a mân addasiadau i adeiladau hanesyddol

6.1.3 Mae llawer o'r adeiladau sydd heb eu rhestru, a rhai o'r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth, wedi dioddef yn sgil colli manylion pensaernïol a deunyddiau adeiladu gwreiddiol. Yn wahanol i adeiladau rhestredig ac adeiladau masnachol, fel arfer gall newidiadau i adeiladau heb eu rhestru, yn yr Ardal Gadwraeth, gael eu gwneud o dan hawliau datblygu a ganiateir, heb yr angen am ganiatâd cynllunio, oni bai bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei le. O ganlyniad, mae canran sylweddol o'r adeiladau sydd heb eu rhestru yn yr Ardal Gadwraeth wedi colli o leiaf rhywfaint o'u nodweddion traddodiadol, ac mae hynny'n gwanhau cymeriad a golwg cyffredinol yr ardal. Mae'r golled gynyddol o ddeunyddiau adeiladu a manylion gwreiddiol yn amharu ar gymeriad a golwg yr ardal.

### Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau (Adeiladau mewn Perygl)

6.1.4 Mae nifer fechan o adeiladau hanesyddol sydd angen gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio cyffredinol, yn enwedig yng nghanol y dref. Hefyd, mae llawer o'r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth yn dangos arwyddion o esgeulustod, dadfeiliad a dirywiad oherwydd diffyg cyllid neu gynnal a chadw ac maent ar hyn o bryd yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Yn yr Ardal Gadwraeth mae wyth adeilad rhestredig 'mewn perygl', ar Gofrestr Adeiladau Mewn Perygl y Cyngor ond dim un wedi'u nodi fel adeilad 'bregus'. Mae'n bwysig i'w cyflwr gael ei fonitro a, pan fydd ar gael, blaenoriaethu cyllid ar gyfer yr adeiladau hynny a nodwyd ar Gofrestr Adeiladau mewn Perygl[16] y Cyngor Sir fel rhai sydd mewn perygl mawr

[16] Yn gywir ar ddyddiad yr arolwg, Medi 2014

neu'n fregus. Efallai bydd cyfleoedd cyllido ar gyfer adeiladau hanesyddol ar gael gan Cadw neu ffynonellau eraill, er gall y meini prawf cymhwyso fod yn llym.[17]

**Rheoli datblygiadau newydd**

6.1.5 Nid yw’r holl ddatblygiadau modern yn cyd-fynd â chymeriad a golwg hanesyddol yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn wir am estyniadau bychain a modurdai yn ogystal â datblygiadau mwy.

**Tir y cyhoedd**

6.1.6 Ledled yr Ardal Gadwraeth mae'r gwerthusiad yn dangos bod llawer o achosion lle mae tir y cyhoedd wedi’i gynllunio, ei lunio neu’i gynnal yn wael. Mae llawer o’r manylion hanesyddol o fewn tir y cyhoedd wedi’u dileu ac mae’r dulliau a’r deunyddiau a ddefnyddiwyd wrth eu hailosod, unai yn anaddas neu anghydnaws. Mater arall o bwys yw’r holl barcio ar y stryd yn yr Ardal Gadwraeth, sy’n cael effaith andwyol ar ei chymeriad a’i golwg.

**Mannau agored, tirlunio a rheoli coed**

6.1.7 Tra bo’r gwerthusiad wedi nodi bod dau fan agored a gwyrdd pwysig o fewn yr Ardal Gadwraeth, mae yna nifer o’r strydoedd sydd ag ychydig neu ddim tirlunio. Er bod yr Ardal Gadwraeth yn amlwg drefol o ran cymeriad, mae tirlunio priodol yn cynnig cyfleoedd i wella nifer o’r mannau cyhoeddus a’r strydoedd drwy ychwanegu gwead, lliw a chynyddu bioamrywiaeth.

6.1.8 Gallai astudiaeth Ecolegol Capita Symonds y cyfeiriwyd ati  yn 4.3. fod yn sail i gynllun rheoli ar gyfer ardaloedd y Slade a Llwybr y Glannau. Gallai’r Cyngor gynnal ymgynghoriad sylfaenol er mwyn penderfynu ar berchnogaeth bresennol  tir yr ardal honno a dylid llunio rhaglen gynnal a chadw, mewn cytundeb â thrigolion lleol a pherchnogion tir, er mwyn egluro pa waith cynnal a chadw sydd ei angen yn ychwanegol i’r drefn bresennol, h.y. torri, teneuo, plannu coed ac ati, gan egluro’r holl gostau perthnasol.

6.1.9 Yn yr hinsawdd economaidd bresennol mae’r cyllid yn hynod o brin ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw. Er mwyn cyflawni’r cynigion gwella mae angen sicrhau ceisiadau llwyddiannus am gyllid allanol tra ar yr un pryd mae angen ymrwymiad parhaus gan y Cyngor i gwrdd â’r costau refeniw blynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal mannau agored sydd wedi’u gwella.

[17] Cadw website http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/historicbuildings/?lang=en as at Sept 16

# 7. Cynigion Rheoli

7.1.1 Mae’r gwerthusiad cymeriad wedi adnabod y nodweddion sy’n cyfrannu at gymeriad arbennig a gwahanol yr Ardal Gadwraeth, a’r hyn y dylid ei gadw a’i wella. Mae’r cynigion rheoli canlynol yn adeiladu ar y nodweddion negyddol sydd hefyd wedi’u nodi, er mwyn darparu cyfres o faterion ac argymhellion ar gyfer gwella a newid. Bydd yn bwysig i Gyngor Sir Penfro roi’r argymhellion canlynol ar waith fel rhan o’i strategaeth reoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Abergwaun.

7.1.2 Bwriad y *Cynigion Rheoli* canlynol yw sicrhau bod cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael ei gadw a’i wella, trwy ddarparu cyfres o argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol ar sail y materion a nodwyd yng *Ngwerthusiad yr Ardal Gadwraeth.*

7.1.3 Mae’r cynigion yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella a pholisïau i osgoi newid niweidiol; mae nifer o’r rhain yn gyfrifoldeb i’r Cyngor Sir. Mae’r cynigion wedi’u llunio gyda’r ymwybyddiaeth bod adnoddau’r Cyngor ar gyfer rheoli Ardaloedd Cadwraeth yn brin, ac felly bod angen eu blaenoriaethu. Mae cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor yn golygu bod y cynigion y maent yn gyfrifol amdanynt yn debygol o gymryd mwy o amser i’w gweithredu nag sy’n ddymunol.

7.1.4 Dylid monitro ac adolygu Gwerthusiad Cymeriad yr Ardal Gadwraeth a’r Cynigion Rheoli yn rheolaidd. Bydd y Gwerthusiad Cymeriad a’r Argymhellion Rheoli yn eistedd ochr yn ochr â'r polisïau cadwraeth yn y Cynllun Datblygu Lleol ac yn ategu ei nod o ddiogelu a gwella Ardaloedd Cadwraeth y Sir.

***Safleoedd ac adeiladau Negyddol / niwtral - cyfleoedd ar gyfer gwella***

7.1.5 Cynnig:

- Sicrhau bod adeiladau neu safleoedd negyddol / niwtral yn cael eu hailddatblygu gyda datblygiadau cyfoes a ddyluniwyd yn dda, sydd naill ai’n cynnal neu wella cymeriad unigol ardaloedd o fewn Ardal Gadwraeth Abergwaun. Mae’n rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd ystyried nodweddion pwysig a chymeriad yr ardal fel y’u hamlinellwyd yn y ddogfen hon. Felly bydd unrhyw ddyluniad gwael neu amhriodol yn cael ei wrthod.
- Ble mae adeilad neu safle wedi’i nodi fel un sy’n cael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth, bydd y Cyngor yn ceisio gwella’r adeilad neu’r safle

hwnnw.

- Bydd y Cyngor, ar ôl ymchwil a dadansoddi pellach, yn ceisio paratoi briffiau dylunio ar gyfer safleoedd 'negyddol' amlwg.
- Bydd y Cyngor, ar ôl ymchwil a dadansoddi pellach, yn ceisio paratoi briff cynllunio a dylunio ar gyfer safleoedd 'negyddol' amlwg.

***Colli manylion pensaernïol a mân addasiadau i adeiladau hanesyddol***

7.1.6 Cynnig:

- Annog perchenogion eiddo i wrthdroi addasiadau anghydnaws ac ailosod nodweddion pensaernïol megis ffenestri, drysau a waliau terfyn ayyb, ar adeiladau hanesyddol yn arddull a deunyddiau'r gwreiddiol, yn enwedig ffenestri pren, simneiau a defnyddiau toeon gwreiddiol.
- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau cynghori a nodiadau arfer orau a fyddai o fudd i gynnal cymeriad hanesyddol a golwg yr ardal ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o werth a phwysigrwydd yr Ardal Gadwraeth.

***Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau (Adeiladau mewn Perygl)***

7.1.7 Cynnig:

- Parhau i ddiweddaru y Gofrestr Adeiladau mewn Perygl 2014, sef cofnod o adeiladau rhestredig, o fewn yr Ardal Gadwraeth sydd mewn perygl oherwydd esgeulustod a dirywiad. Ar hyn o bryd nid oes yr un adeilad 'mewn perygl' ac mae wyth adeilad 'bregus'.
- Monitro cyflwr yr holl adeiladau hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, adrodd ar unrhyw ganfyddiadau a chynghori pa gamau y dylid eu cymryd, yn ôl yr angen. Os yw cyflwr adeilad yn achosi pryder, caiff camau priodol eu cymryd i sicrhau dyfodol yr adeilad, gan gynnwys y defnydd o bwerau statudol.

***Rheoli datblygu newydd***

7.1.8  Nid yw rhai datblygiadau modern yn cyd-fynd â chymeriad a golwg hanesyddol yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn wir am estyniadau bychain a modurdai yn ogystal â datblygiadau mwy.

7.1.9   Cynnig:

- Caiff cynigion ar gyfer datblygu eu barnu yn ôl eu heffaith ar gymeriad a golwg yr ardal fel y'i nodir yng Ngwerthusiad Ardal Gadwraeth Abergwaun, ynghyd

ag unrhyw Gyfarwyddyd Erthygl 4, polisïau perthnasol o'r Cynllun Datblygu ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

- Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cydymffurfio â'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Sir Penfro (mabwysiadwyd yn 2013) ac unrhyw gynlluniau datblygu diweddarach.

***Tir y cyhoedd***

7.1.10 Mae effaith Tir y Cyhoedd ar brofiad a chymeriad yr Ardal Gadwraeth yn hollbwysig,  Gallai colli nodweddion hanesyddol a'r defnydd o ddeunyddiau a dulliau anghydnaws gael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr Ardal.

7.1.11 Cynnig:

- Gweithio gydag adrannau cynnal a chadw, priffyrdd a datblygwyr preifat i sicrhau bod gwaith dylunio, llunio a chynnal tir y cyhoedd o ansawdd uchel, gan ddefnyddio deunyddiau priodol sy'n cydweddu â chymeriad a chyd-destun hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.
- Gweithio gyda'r adran briffyrdd i fynd i'r afael â pharcio ceir ar y stryd ac effaith hynny ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.
- Bydd y Cyngor yn ystyried cynnal archwiliad o'r holl arwyddion ffordd a chelfi stryd yn yr Ardal Gadwraeth gyda'r bwriad o sicrhau dull mwy syml a chydlynus, yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn 'Streets for All', gan gynnwys dileu eitemau nad oes eu hangen, a dodrefn stryd o ansawdd da, heb lawer o waith cynnal a chadw ac mewn safle da.
- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau ar gyfer tir y cyhoedd.

***Mannau agored, tirlunio a rheoli coed***

7.1.12  Mae'r gwerthusiad yn nodi nad oes llawer o fannau agored a gwyrdd yn yr Ardal Gadwraeth. Lleoliad allweddol y Slade a'r llethr lawr tuag at yr arfordir, o fewn yr Ardal Gadwraeth, a Pharc Lota sy'n agos i ffin yr Ardal Gadwraeth yw'r prif fannau agored. Yr ardal fach galed, wedi'i thirlunio i'r dwyrain o'r Wesh yw'r unig ardal amwynderau cyhoeddus o fewn yr Ardal Gadwraeth.

Cynnig:

- Sicrhau bod tirlunio addas yn ffurfio rhan annatod o ddyluniad unrhyw ddatblygiad newydd, gan gynnwys gwaith ar dir y cyhoedd o fewn yr Ardal Gadwraeth. Ni ddylid rhoi caniatâd i gynigion datblygu oni bai bod eu dyluniad

yn gwella tirluniad a bioamrywiaeth y safle.

- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau ar gynnal a gofalu am goed yn yr Ardal Gadwraeth.

***Blaenau siopau a hysbysebion***

7.1.13 Mae nifer o ffryntiau siopau hanesyddol mewn cyflwr da yn yr Ardal Gadwraeth. Fodd bynnag, mae arwyddion traddodiadol wedi'u colli ac mae ffryntiau ac arwyddion siopau mewn lliwiau modern anaddas wedi'u cyflwyno

7.1.14 Cynnig:

- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau ar gyfer Hysbysebion/Arwyddion a Blaenau Siopau.

## 8. Monitro

8.1.1 Bydd yn ofynnol monitro ac adolygu'r Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli yn rheolaidd er mwyn cwmpasu newidiadau datblygu ac unrhyw flaenoriaethau a chynigion newydd. Gallai arolwg ffotograffig newydd o'r Ardal Gadwraeth, wedi'i ddyddio, fod yn offeryn allweddol i fonitro newidiadau - gwnaed cofnod ffotograffig ar 26 Mawrth 2015.

8.1.2 Bydd diweddariadau rheolaidd wedi'i seilio ar wybodaeth am Gynllunio / Adeiladau Rhestredig / GCC yn nodi'r rhan fwyaf o newidiadau datblygu, a gall ymchwil hanesyddol pellach i'r Ardal Gadwraeth fod yn fuddiol. Gallai mapiau hanesyddol, lluniadau, paentiadau neu engrafiadau a'r nifer drawiadol o hen ffotograffau sydd ar gael, fod yn wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer adferiad cywir o eiddo a threfluniau treftadaeth.

**Arolwg Ffurfiol**

8.1.3 Dylai'r ddogfen hon gael ei hadolygu bob pum mlynedd o ddyddiad ei mabwysiadu'n ffurfiol. Bydd angen iddi gael ei hasesu yn erbyn deddfwriaeth, a pholisi cenedlaethol a lleol sydd ar waith adeg yr adolygiad. Dylai'r adolygiad gwmpasu'r canlynol:

- Arolwg o'r Ardal Gadwraeth gan gynnwys arolwg ffotograffig llawn i gynorthwyo camau gorfodi posibl;

- Asesiad o'r graddau y mae argymhellion wedi’u gweithredu, a pha mor llwyddiannus y bu hynny;
- Nodi unrhyw faterion newydd sydd angen mynd i'r afael â nhw, neu sydd angen eu gweithredu neu welliannau pellach;
- Cynhyrchu adroddiad byr yn manylu ar ganfyddiadau'r arolwg ac unrhyw gamau angenrheidiol;
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu

# Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Abergwaun

## 1. Crynodeb o ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth

1.1.1 Mae Abergwaun yn bennaf drefol o ran ei natur, a daw llawer o gymeriad y dref o'i safle arfordirol a datblygiad yr harbwr. Mae'r amrywiaeth eang o oedran yr adeiladau, arddulliau adeiladu a'u perthynas â'i gilydd, ynghyd â phatrwm y strydoedd cul ac amrywiaeth o ran lled, (h.y. cul ger canol ac yna'n lledu), a'r nifer o gyfleoedd o fewn y dref i gael naill ai gipolwg o'r môr neu olygfa arfordirol banoramig, yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddiddordeb arbennig yr ardal.

1.1.2 Mae'r dref yn ymestyn ar draws rhannau uchaf Penrhyn Pencaer, ac yn cynnwys ardal o lethr arfordirol a dyffryn a adnabyddir fel y Slade, sy'n rhedeg tua'r dwyrain i lawr llethr serth o ben Penslade at lan y dŵr gyferbyn â'r habwr ac anheddiad Cwm Abergwaun, sydd ar lan ogleddol aber yr Afon Gwaun. Mae tref Abergwaun a hen ardal Cwm Abergwaun yn cael eu diogelu a'u cysgodi'n ddaearyddol gan Benrhyn Pencaer, ac maent, ar yr un pryd, yn cael eu gwahanu a'u cysylltu gan lethr serth iawn sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin o'r bont garreg ar draws yr afon yng Nghwm Abergwaun i fyny at Main Street a'r Sgwâr yn Abergwaun.

1.1.3 Mae'r dopograffeg yn caniatáu golygfeydd pell o'r mynyddoedd a'r môr i'r gogledd oddi ar Y Stryd Fawr a Kensington Street, ynghyd â chipolygon a golygfeydd panoramig o fannau eraill yn y dref. Mae llechweddau'r Slade ac o gwmpas Bank Terrace yn goediog gan fwyaf, gyda chlystyrau tal o hen goed sydd wedi'u teneuo mewn mannau, tra bod gweddill y llethr arfordirol, sy'n cynnwys Llwybr y Glannau a llwybrau i'r dref wedi'i orchuddio â glaswellt, prysgwydd , eithin, drain gwynion ac eiddew.

1.1.4 Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys cyngor pellach ynglŷn â sut y dylid cynnal gwaith atgyweirio ac ailosod:

## Adnabod Materion Cadwraeth

### 1.1 Amodau cyffredinol (Dadansoddiad SWOT)

1.1.5 Er bod mwyafrif yr adeiladau hanesyddol a threfluniau pwysig yn dal i fod, mae yna nifer o faterion y dylid rhoi sylw iddynt. Mae angen i'r Cynllun Rheoli hwn adeiladau ar gryfderau lleol penodol a rhinweddau cynhenid yr Ardal Gadwraeth, er mwyn manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Mae'r pryderon a'r problemau cyfredol wedi'u nodi mewn dadansoddiad 'SWOT' (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) gyda manylion pellach isod.

1.1.6 Dyma grynodeb o'r materion allweddol sy'n effeithio ar reolaeth yr Ardal Gadwraeth:

**Cryfderau:**

- Y cysylltiad agos â phorthladdoedd pysgota hanesyddol lleol a datblygiadau fferi modern
- Adeiladau hanesyddol sydd, i raddau helaeth, wedi cadw'u cymeriad traddodiadol gan greu ymdeimlad cryf o le
- Adeiladau arwyddocaol sy'n rhoi ffocws clir i'r Ardal Gadwraeth
- Mynediad i ardaloedd hamdden ffurfiol ac anffurfiol drwy'r llwybrau cyhoeddus, gan gynnwys y Llwybr Cenedlaethol, glan y dŵr yn y Slade, Parc Lota, caeau a mannau chwarae
- Mynediad i gyfleusterau cymunedol gan gynnwys Theatr Gwaun
- Hygyrchedd da ar y ffordd a'r llwybrau beicio
- Tir ar gael ar gyfer ailddatblygu, gan gynnwys manwerthu
- Agosrwydd i'r porthladd fferi yn Wdig
- Cydlyniad cymunedol a hunaniaeth cryf

**Gwendidau:**

- Effaith gronnus addasiadau, estyniadau, deunyddiau newydd a manylion o ansawdd wael i lawer o adeiladau hanesyddol wedi arwain at golli cryn nifer o nodweddion pensaernïol a deunyddiau gwreiddiol, gan niweidio cymeriad a golwg arbennig yr ardal;
- Diffyg cynnal a chadw a gofal priodol am fanylion treftadaeth;
- Nifer yr adeiladau rhestredig a rhai heb eu rhestru sydd mewn cyflwr gwael;
- Adeiladau pwysig yn wag neu ddim yn cael eu defnyddio
- Datblygiadau ac atgyweirio/ adnewyddu anghydnaws adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth;
- Diffyg ardaloedd cymunedol ac ardaloedd agored yng nghanol Abergwaun;
- Mynediad cul a chyfyng i'r cyhoedd drwy'r canol hanesyddol
- Traffig ymwthiol drwy ganol hanesyddol Abergwaun;
- Diffyg ystod eang o fanwerthwyr

**Cyfleoedd:**

- Gwella cynnal a chadw a rheoli adeiladau treftadaeth;
- Rhagor o adfywio sensitif i safleoedd a threfluniau allweddol;
- Parhau i uwchraddio tir y cyhoedd gan ddefnyddio agwedd addas tuag at gydlyniad a dyluniad y tir hwnnw'n gyffredinol, er mwyn atgyfnerthu a gwella cymeriad hanesyddol y dref;
- Buddsoddiad ac ymwelwyr yn cael eu denu gan y marina arfaethedig;
- Gwell rheoli a mynediad drwy'r Slade at lan y dŵr a Chwm Abergwaun;
- Ystyried mesurau rheoli traffig er mwyn lleihau effaith y traffig

**Bygythiadau:**

- Gwrthwynebiad i reolaethau priodol ar gynnal a chadw ac addasu adeiladau hanesyddol;

- Dyluniad amhriodol adeiladau llenwi, estyniadau, blaenau siopau ac addasiadau newydd;
- Dirywiad yn ffabrig adeiledig tir y cyhoedd neu ddirywiad mewn arbenigrwydd lleol yn sgil gwelliannau annelwig, gwael
- Dim digon o ddefnydd o dir ac adeiladau gwag a chynlluniau datblygu heb eu gweithredu;
- Cynnydd yn y traffig a'i effaith; a
- Lleihad yn y nifer o gyfleoedd ar gyfer manwerthu, gan gynnwys colli siopau bwyd lleol

**1.2 Materion cadarnhaol ac asedau**

1.2.1 Mae'r canlynol ymhlith y materion treftadaeth cadarnhaol ac asedau sydd angen eu diogelu:

• **Cymeriad cyffredinol yr Ardal Gadwraeth** sef cyfuniad o'i thirlun adeiledig a naturiol, sy'n cyfleu ac yn cynrychioli hanfod cymeriad yr ardal, gan gynnwys y berthynas rhwng canol y dref, y Slade a'r arfordir; ei hadeiladau preswyl a masnachol hanesyddol a chymeriad cynhenid dyluniad y strydoedd a'r gwead o fân strydoedd

• **Adeiladau unigol** o arwyddocâd hanesyddol sydd â'r potensial i fywiogi'r strydlun, megis y tafarnau hanesyddol, siopau, capeli a gwestai, gan gynnwys Gwesty Abergwaun, y Royal Oak a'r Farmers Arms

• **Grwpiau arwyddocaol** o adeiladau sy'n ffurfio strydluniau amrywiol yn rhoi ymdeimlad o reolaeth a diffiniad i'r mannau adeiledig trefol a'r gofodau nodedig, megis y terasau o dai trefol a bythynnod gan gynnwys 22 – 26 Main Street, Hill Terrace a theras 5 – 9 y Stryd Fawr.  Mae tua 106 o adeiladau rhestredig yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i gymeriad y dref

**1.3 Materion negyddol a phroblemau**

1.3.1 Mae'r canlynol ymhlith y materion negyddol a'r problemau o fewn yr Ardal Gadwraeth:

• Adeiladau gwag a diffaith sy'n tynnu oddi ar rinweddau gweledol yr amgylchedd treftadaeth; nid ydynt ychwaith yn annog buddsoddiad newydd mewn adeiladau

cyfagos na’r ardal yn gyffredinol. Mae diffyg cynnal a chadw yn golygu bod ffabrig yr adeiladau hyn yn dirywio’n gyflymach, a hynny yn ei dro’n llesteirio unrhyw raglenni adfywio, fel yn Hamilton Street, y Wesh, Main Street a’r Sgwâr.

• Mae rhai o’r siopau’n wag ac mae gan eraill le gwag ar y llawr cyntaf. Mae’r diffyg budd economaidd a ddaw yn sgîl hynny’n arwain at ddiffyg cynnal a chadw ac atgyweirio amhriodol ac mae hyn yn effeithio ar amgylchedd weledol a ffisegol y dref.

- Mae addasu ac atgyweirio gwael yn golygu bod llawer o rinweddau treftadaeth traddodiadol a chymeriad adeiladau a threfluniau wedi’u colli. Mae effaith cronnus cymaint o newidiadau bach yn arwyddocaol ar adeiladau unigol ac ar strydluniau ehangach.

1.3.2 Mae angen rheoliadau statudol, yn enwedig ar gyfer:

- newid ffenestri codi pren a rhoi ffenestri fframiau Upvc ac o ddyluniad gwahanol yn eu lle;
- colli manylion a deunyddiau treftadaeth gan gynnwys gwaith atgyweirio o ansawdd wael;
- y defnydd o rendr a gorffeniadau wal eraill sy’n anaddas ar gyfer adeiladau treftadaeth;
- gosod drysau ffrynt newydd gyda dyluniadau a gorffeniadau anaddas;
- tynnu mowldinau treftadaeth a manylion eraill;
- tynnu simneau a photiau;
- ffenestri anaddas a gwael o ran maint, a ffenestri dormer;
- gosod erialau a dysglau lloeren; a
- lleoliad a maint anaddas offer ynni adnewyddadwy.

# 2. Canllawiau Polisi ac Egwyddorion Dylunio

## 2.1 Egwyddorion Dylunio

2.1.1 Mae ‘*Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy’* CADW Mawrth 2011, yn nodi chwe egwyddor allweddol. Yr egwyddorion hyn yw sail yr argymhellion polisi a rheoli sy’n cael eu nodi yn y ddogfen hon.

**Egwyddor 1 Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerth**

Gwaith y ddogfen hon yw adnabod y materion allweddol a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli'r ardal;

**Egwyddor 2 Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hollbwysig**

Mae Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun yn adnabod, disgrifio ac yn lleoli cymeriad a gwedd gwahanol rannau o'r ardal;

**Egwyddor 3 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir**

Mae Rhan 2 y ddogfen hon yn adnabod polisïau a chanllawiau dylunio ar gyfer dyfodol holl adeiladau a mannau o fewn yr Ardal Gadwraeth;

**Egwyddor 4 Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol**

Yn ogystal â'r canllawiau yn adran 2, gweler adran 5. Rhaglen weithredu - Canllawiau ar gyfer cyfranogiad cymunedol;

**Egwyddor 5 Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson**

Adran 4 – Mae'r Argymhellion Rheoli yn nodi'r gweithredoedd allweddol sydd eu hangen i gefnogi gweithdrefnau cynllunio cyfredol yr Ardal Gadwraeth;

**Egwyddor 6 Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt**

Adran 4.5 – Monitro Newid yn rhestru dulliau o hysbysu'r gymuned a'r awdurdodau.

## 2.2 Cyd-destun Datblygiad yr Ardal Gadwraeth

Mae'r ddogfen **Gweledigaeth i Sir Benfro hyd 2020** yn anelu at greu:

*"..lle diogel a deniadol i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef gydag amgylchedd morol a daearol o ansawdd uchel. Caiff ei seilio ar rwydwaith integredig o gymunedau cynaliadwy gyda dyfodol hir dymor sy'n cynnal diwylliant, iaith, treftadaeth a thraddodiadau amrywiol Sir Benfro."*

2.2.1 Mae gan Abergwaun y potensial i chwarae rôl allweddol yn y broses o wireddu'r weledigaeth

### 2.3 Polisi datblygu ac egwyddorion dylunio Ardal Gadwraeth

2.3.1 Mae dynodiad Ardal Gadwraeth yn cyflwyno rheolaeth dros ddymchwel ac yn rhoi rheolaeth gryfach dros ddatblygiad gyda'r nod o gynnal, cadw a gwella diddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Bydd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu o fewn Ardal Gadwraeth angen Caniatâd Ardal Gadwraeth. Dylid sicrhau bod darluniadau manwl ar gael i gefnogi'r holl geisiadau ynghyd â manylion tirlunio arfaethedig, pan fo hynny'n angenrheidiol. Bydd hynny'n galluogi'r awdurdodau i asesu'r cynnig yn llawn ac i ystyried ei effaith ar yr Ardal Gadwraeth. Dylid darllen y rhain ynghyd â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadwyd a chanllawiau cynllunio atodol perthnasol.

2.3.2 Mae polisïau sy'n ymwneud â chynnal yr amgylchedd hanesyddol o fewn Cyngor Sir Penfro ar gael yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadwyd ar 28 Chwefror 2013. Mae'r CDLl yn parhau i bwysleisio ac atgyfnerthu pwysigrwydd Polisïau Cadwraeth y sir, ac yn cyflwyno canllawiau eglur a blaenoriaethau.

2.3.3 Bydd angen cysylltu gweithrediad polisi a chanllawiau dylunio generig a lleol, cyngor dylunio i'r Ardal Gadwraeth gyfan ac argymhellion ar gyfer lleoliadau arbennig, gyda'r Cynllun Datblygu fel canllawiau cynllunio atodol. Bydd angen diogelu'r asedau cadarnhaol a ddisgrifiwyd yn adran un, a datrys neu gyfyngu ar y problemau negyddol.

### 2.4 Canllawiau dylunio er mwyn gwella adeiladau presennol

2.4.1 Mae newidiadau modern amhriodol yn gallu effeithio'n niweidiol ar gynildeb, cydbwysedd a maint drychiad adeiladau a hefyd yn gallu bod yn niweidiol i ffabrig adeiladau hanesyddol. Mae'r canlynol ymhlith y nodweddion gwreiddiol sydd dan fygythiad o newidiadau o'r fath: wynebau siopau, ffenestri codi pren, drysau a fframiau drysau, canllawiau haearn bwrw, rheiliau, offer dal dŵr glaw, a simneiau a photiau simnai. Felly, mae'n bwysig bod perchenogion eiddo a phreswylwyr yn magu agwedd gadarnhaol tuag at atgyweirio ac ailosod y nodweddion hyn.

2.4.2 Mae'r nodiadau canlynol yn amlygu'r prif ystyriaethau mewn perthynas â rheoli datblygiadau a chynnal neu ailosod cydrannau treftadaeth o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r gwefannau canlynol, gan Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol, Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol, Historic England a Cadw[18], yn cynnwys cyngor pellach ynglŷn â sut y dylid cynnal gwaith atgyweirio ac ailosod:

---

[18] Dolennau i'r gwefannau'n gywir Hydref 2015

- www.ihbc.org.uk/page55/ihbc_publications/index.html
- http://www.maintainyourbuilding.org.uk/main/
- https://historicengland.org.uk/advice/technical-advice/buildings/maintenance-and-repair-of-older-buildings/
- http://www.maintenancematterswales.org/

2.4.3 Deall effaith unrhyw newidiadau yw'r allwedd i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol. Ni ddylid ymgymryd ag unrhyw waith heb sefydlu:

- Pam ei fod yn angenrheidiol;
- Beth mae'n ceisio'i gyflawni; ac
- A oes posibilrwydd o unrhyw ganlyniadau niweidiol.

2.4.4 Mae hyn yn golygu bod yn rhaid asesu pob safle yn nhermau ei gyfraniad i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, ei werth hanesyddol, y math o adeiladu a pherfformiad technegol, gan gynnwys presenoldeb diffygion neu unrhyw fygythiadau eraill i'w ffabrig. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, gan bensaer, syrfëwr adeiladau neu gynlluniwr sy'n brofiadol o ran gweithio ag amgylcheddau hanesyddol. Hyd yn oed yn achos y prosiectau symlaf, mae'n hanfodol deall sut mae adeilad penodol yn 'gweithio' o ran ei hunan ac mewn perthynas â'i leoliad. Dylid sicrhau bod cynllun cadwraeth cynhwysfawr a manwl yn ei le cyn dechrau ar unrhyw waith ar adeiladau mwy o faint ac adeiladau o werth hanesyddol eithriadol. Nid yw dynodiad ardal gadwraeth yn rhwystro newid ond yn hytrach yn ffurfio fframwaith y gall y dref ddatblygu o'i fewn heb golli unrhyw nodweddion sy'n ei gwneud yn arbennig.

**Cynnal a chadw**

2.4.5 Cynnal a chadw cyson yw'r ffordd orau a mwyaf economaidd o ofalu am ffabrig adeilad. Cyfrifoldeb y perchenogion a'r preswylwyr yw gofalu am adeilad. Bydd adeilad s'n cael gofal yn cadw ei werth ac ni fydd angen atgyweiriadau drud. Diogelu'r adeilad rhag effeithiau dŵr a lleithder yw'r mater pwysicaf. Toeon, cwteri a phibellau dŵr ddylid eu hatgyweirio'n gyntaf. Dylai perchenogion adeiladau mawr ystyried creu cynllun cynnal a chadw yn seiliedig ar archwiliadau gweledol blynyddol ac arolwg manwl bob pum mlynedd.

***Atgyweirio a cynnal a chadw***

2.4.6 Dylai cynnal a chadw rheolaidd leihau'r angen am waith atgyweirio sylweddol i bob adeilad. Dylid bob amser asesu'n gyntaf os oes modd atgyweirio nodweddion

gwreiddiol. Fodd bynnag, bydd rhai elfennau wrth reswm yn dod i ddiwedd eu hoes, a bydd yn rhaid ystyried pa ddeunyddiau traddodiadol a thechnegau atgyweirio dibynadwy y dylid eu defnyddio. Os na wneir hyn, bydd gwerth hanesyddol adeiladau unigol yn diflannu a gyda hynny, diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Pwrpas atgyweirio unrhyw adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth yw rhwystro, neu o leiaf arafu, y broses ddirywio heb niweidio neu addasu nodweddion sy'n cyfrannu i'w pwysigrwydd hanesyddol / pensaernïol.

2.4.7 Mae'r egwyddorion atgyweirio canlynol yn fan cychwyn da ar gyfer deall egwyddorion ac athroniaeth atgyweirio adeilad hanesyddol:

- *Lleihau Ymyriad*: Mae'n rhaid sicrhau nad oes mwy o ymyriadau na'r hyn sy'n hollol angenrheidiol i sicrhau goroesiad tymor hir yr adeilad. *Dylid osgoi niwed diangen*: Mae dilysrwydd adeilad hanesyddol yn dibynnu ar gyfanrwydd ei ffabrig. Bydd cael gwared â ffabrig hanesyddol a rhoi ffabrig newydd yn ei le, waeth pa mor ofalus y gwneir hyn, yn effeithio'n niweidiol ar olwg adeilad, yn lleihau ei werth fel ffynhonnell o wybodaeth hanesyddol ac yn erydu arbenigrwydd lleol.
- *Dadansoddi achos y diffygion*: Mae atgyweirio neu ailosod deunydd pydredig heb ddeall pam mae angen ei ailosod yn gallu arwain at broblemau pellach.
- *Gadael i'r adeilad 'anadlu'*: Mae'r rhan fwyaf o adeiladau modern wedi'u gwneud o ddeunyddiau caled, cryf ac anhydraidd. Maent yn dibynnu ar rwystrau ffisegol fel cyrsiau gwrth leithder a philenni, waliau ceudod a chladin i gadw lleithder allan. Mae adeiladau hanesyddol a thraddodiadol yn wahanol iawn. Mae gan lawer ohonynt waliau solet ac mae'r rhan fwyaf ohonynt o ddeunyddiau mandyllog sy'n amsugno lleithder ac sydd wedyn angen i'r lleithder hwnnw anweddu, hy, 'anadlu'. Bydd atgyweirio adeiladau o'r fath gyda deunyddiau caled, anhydraidd yn achosi niwed i ffabrig sydd o bosibl wedi goroesi am gannoedd o flynyddoedd. Mae'n bwysig iawn defnyddio deunyddiau o ansawdd uchel yn unig, gyda thechnegau dibynadwy. Mae'n bosibl meddwl yn y tymor byr bod deunyddiau rhad, modern fel plastig yn cynnig manteision, ond bydd dyfodol hir dymor cymeriad a golwg yr ardal yn dioddef. Mae angen defnyddio deunyddiau traddodiadol a fydd yn diflannu i'r cefndir gydag amser a thywydd. Dylid bob amser asesu pa waith atgyweirio, adfer a gwella sy'n angenrheidiol o fewn cyd- destun yr adeilad cyfan; nid yw'n ddigonol ystyried blaen yr adeilad neu wyneb siop yn unig.

**Toeon**

2.4.8 Mae toeon ardal drefol yn ffurfio nenlinell a phroffil gweledol strydlun ac yn rhan bwysig o'i hunaniaeth. Mae'r cyfuniad o ddeunyddiau, manylion, ffurf a maint yn creu'r 'het' sy'n eistedd uwchben yr adeilad ac sy'n bwysig i'w gymeriad. Er nad yw llawer o'r manylion bob amser i'w gweld o lefel y stryd, mae topograffi Abergwaun yn golygu bod modd edrych dros y toeon o wahanol rannau o'r ardal. Mae cysondeb, unffurfiaeth a chyfanrwydd toeon gwreiddiol y dref wedi'i golli wrth i bobl ddefnyddio deunyddiau gwahanol a dymchwel simneau a photiau simnai. Mae'r golled i'w gweld yn glir pan fydd enghreifftiau gwreiddiol yn dal i'w gweld ochr yn ochr â'r adeiladau sydd hebddynt. Wrth reswm, mae'r to yn rhan hanfodol o adeilad, gan amddiffyn yr adeilad rhag y tywydd, ac o'r herwydd, dyma un o'r rhannau mwyaf allweddol sydd angen cynnal a chadw rheolaidd ac atgyweirio. Felly, mae angen manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i adfer a gwella'r to, fel rhan o'r gwaith arferol o ofalu am yr adeilad.

**Defnyddiau Toeon**

2.4.9 Llechi naturiol o Gymru yw'r prif ddefnydd ar doeon adeiladau traddodiadol yn Abergwaun, a dylid defnyddio llechi o'r un math wrth atgyweirio neu adfer unrhyw doeon. Dylid defnyddio morter calch naturiol wrth osod unrhyw gribau, ymylon a manylion eraill. Ni ddylid defnyddio clipiau plastig neu debyg. Nid yw teils concrit a chlai yn briodol ar adeiladau treftadaeth. Heblaw am edrych yn fwy garw, maent yn pwyso cryn dipyn yn fwy na'r defnyddiau llechi gwreiddiol a hynny yn ei dro yn achosi problemau i'r strwythur pren sy'n cynnal y to. Mae mewnforio llechi naturiol sy'n cyd-fynd â lliw llwyd neu las arbennig y llechi Cymreig gwreiddiol yn ateb mwy cost-effeithiol ond mae'n bwysig chwilio am lechi sy'n dod o chwarel safonol er mwyn osgoi problemau hir dymor wrth i'r llechi hindreulio. Er ei bod yn anodd weithiau gwahaniaethu rhwng llechi artiffisial newydd a rhai naturiol, mae llechi artiffisial yn hindreulio mewn ffordd wahanol a thros amser, fe ddaw'n amlwg eu bod yn wahanol i'r llechi gwreiddiol. Os rhoddir deunydd inswleiddio yn y to, dylai fod ar lefel y nenfwd neu rhwng y trawstiau, a dylid gofalu bod awyriad digonol (trwy dyllau dan y bondo, ac nid awyrellau penodol wedi'u gosod yng ngoleddf y to).

2.4.10 Bydd deunydd inswleiddio ar ben y trawstiau'n codi proffil y to ac yn achosi problemau posibl ger y bargodion a hefyd lle mae'n ffinio ag adeiladau cyfagos. Fodd bynnag, mae cyflwyno llawer o ddeunydd inswleiddio mewn adeiladau hŷn yn gallu achosi cyddwysiad a hynny yn ei dro yn arwain at bydredd.

***Ffenestri to***

2.4.11 Os oes rhaid wrth ffenestri to neu ddormer mewn llofftydd sydd wedi'u troi'n ystafelloedd, dylid eu gosod ar gefn yr adeilad gan eu bod yn amharu ar nenlinell di-

dor y toeon ar yr ochr sy'n wynebu'r stryd. Dylid osgoi ffenestri  dormer newydd lle bynnag bo hynny'n bosibl gan eu bod yn effeithio'n andwyol ar broffil y to a graddfa a chydbwysedd ffurf a maint yr adeilad. Lle bo ffenestri to gwreiddiol yn bodoli, dylid osgoi unrhyw newidiadau i'w cyfranedd a'u maint cyffredinol. Dylid ystyried defnyddio fersiynau modern, gwydr dwbl o ffenestri to haearn bwrw gwreiddiol cynnar (gan sicrhau bod y cyfrannedd a'r maint yn gywir, ynghyd â bar fertigol) er mwyn cadw cymaint ag sy'n bosibl o gymeriad y to.

***Simneiau a photiau simnai***

2.4.12  Mae cyrn simneiau a photiau simnai'n ychwanegu at ddiddordeb y nenlinell a'r strydlun. Dylid cadw simneiau a'u hatgyweirio gyda photiau clai newydd yn ôl yr angen. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i syrfëwr strwythurol archwilio sadrwydd rhai simneau uchel. Os yw'r simnai gwreiddiol wedi cael ei leihau o ran maint (gyda slabiau concrit yn aml ar ei ben), yna dylid ei ailadeiladu i'w uchder gwreiddiol. Os nad oes tystiolaeth o batrwm y simnai gwreiddiol yn bodoli, dylid cadw'r steil mor syml ag sy'n bosibl, gan roi cyrsiau corbelaidd bargodol ar ei ben. Os yn bosibl, dylid osgoi defnyddio brics concrit ac ni ddylid rendro simneiau. Dylid gosod sêl blwm (yn yr uniad rhwng yr arwyneb fertigol a defnydd y to) rhwng y simnai a'r to yn y dull traddodiadol ac yn unol â chanllawiau'r Lead Sheet Association.

***Cwteri a phibellau dŵr***

2.4.13  Dylid ystyried defnyddio cwteri haearn bwrw (neu alwminiwm bwrw) traddodiadol wrth atgyweirio adeiladau treftadaeth. Dylid bob amser ddefnyddio cwteri hanner cylch syml ar adeiladau cynnar. Mae cwteri hanner cylch a chwteri patrwm ogee yn addas i adeiladau diweddarach. Ychydig iawn o gwteri a phibellau dŵr gwreiddiol sydd ar ôl, gyda'r mwyafrif helaeth wedi'u disodli gan Upvc neu mewn ychydig o achosion gan alwminiwm allwthiol. Fodd bynnag, nid yw'r deunyddiau hyn mor gadarn â haearn bwrw neu alwminiwm bwrw ac nid ydynt cystal am wrthsefyll effeithiau tywydd garw. Dylid atgyweirio cwteri sydd wedi'u difrodi neu sydd ar goll, i rwystro dŵr rhag treiddio i mewn i adeiladau ac achosi niwed. Mae dyluniad aflêr nwyddau dŵr glaw a deunyddiau o ansawdd gwael yn cael effaith negyddol ar olwg yr adeilad, fel y mae gosod paneli o ddeunyddiau modern ger y bondo ar dalcen adeilad .

**Ffenestri a gwydriad**

2.4.14  Ffenestri yw 'llygaid' adeilad ac o'r herwydd maent yn rhan ganolog o gymeriad tŷ. Mae'r ffenestr godi ddwbl yn nodweddiadol o fwyafrif yr adeiladau a adeiladwyd cyn dechrau'r ugeinfed ganrif. Yn yr ardal hon, mae ffenestri gasment

ochr neu grog yn nodweddiadol o adeiladau mwy diweddar yn unig. Yn ddieithriad mae newidiadau i faint agoriad y ffenestri neu'r ffenestri eu hunain yn effeithio'n niweidiol ar wyneb yr adeilad. Dylid osgoi defnyddio awyrellau diferu, gan eu bod yn effeithio'n niweidiol ar gymeriad adeiladau.

2.4.15 Dylid ceisio, bob amser, cadw a thrwsio ffenestri codi gwreiddiol, oni bai bod hynny'n hollol anymarferol. Anaml iawn y bydd yn rhaid gosod ffenestri newydd. Mae dirywiad fel rheol yn digwydd ar rannau gwaelod ffenestri, a gellir asio darnau newydd o goed at yr hen goed. Mae'r gwydr coron neu silindr gwreiddiol yn deneuach ac yn fwy anwastad ei arwynebedd na gwydr modern. Mae'n rhoi adlewyrchiadau mwy cynnil a lle mae'r gwydr gwreiddiol yn dal i fodoli, dylid ei gadw. Mae gwydr modern yn drymach, ac mae'n debygol y bydd angen pwysau sash trymach i wrthbwyso'r ffenestr. Os oes rhaid gosod ffenestr newydd yn hytrach na thrwsio'r un wreiddiol, dylai'r ffenestr newydd fod yn un bren a'r dyluniad yr un fath â'r gwreiddiol. Dylid hefyd cadw siliau cerrig gwreiddiol lle bo hynny'n bosibl. Os na ellir trwsio'r sil garreg, y dewis gorau yw hen sil garreg wedi'i hadfer, sy'n cyd-fynd, neu sil concrit o'r un maint.

**Pyrth a drysau**

2.4.16 Mae llawer o'r materion sy'n berthnasol i ffenestri a'r gwydriad hefyd yn berthnasol i byrth a drysau. Lle bo hynny'n bosibl, dylid cadw a thrwsio drysau pren traddodiadol. Os oes rhaid defnyddio drysau newydd, dylid sicrhau eu bod yn debyg i ddyluniad y drysau gwreiddiol, neu'n sicr eu bod yn gweddu'r cyfnod adeiladu gwreiddiol. Tra bod patrymau drysau traddodiadol yn fwy amrywiol na phatrymau ffenestri, mae yna rai egwyddorion cyffredinol o bwys. Ar y cyfan, nid oedd gwydr yn cael ei osod yn y prif ddrws blaen os oedd ffenestr linter uwch ei ben, er i rai perchenogion yn niwedd oes Fictoria a'r cyfnod Edwardaidd roi gwydr addurnedig neu farugog yn lle rhai o'r paneli pren uchaf. Mae'n rhaid cadw, trwsio a chynnal ffenestri linter ac unrhyw nodweddion ategol eraill bob amser. Mae dyluniad ac arddull y gwaith haearn hefyd yn bwysig, a dylai gyd-fynd â dyluniad ac arddull y drws gwreiddiol. Dylid osgoi dolennau lifer allanol.

**Mynediad i'r anabl**

2.4.17 Mae'n angenrheidiol darparu mynediad i'r anabl, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth hygyrchedd. Dylid bob amser sicrhau bod y rheoliadau a'r canllawiau a geir yn y Ddeddf Gydraddoldeb a Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu yn cael eu dehongli'n gywir yn achos Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Lle bo gwaith o'r fath yn digwydd, dylid gwneud hynny'n sensitif gan roi'r un sylw i brif

egwyddorion maint, dyluniad, deunyddiau a saernïaeth ag a wneir i'r adeilad cyfan. Argymhellir y dylid ymgynghori gydag adran rheoli adeiladu Cyngor Sir Benfro.

***Lefel y Stryd***

2.4.18 Mae ansawdd adeiladau ar lefel y stryd yn arbennig o bwysig yn yr ardaloedd masnachol lle mae adeiladau'n aml wedi'u gosod yn dynn i gefn y palmant. Y cyfuniad o flaenau siopau, arwyddion, canopïau a ffasgau sy'n ffurfio'r argraff weledol o gymeriad ardal.

***Atgyweirio ac adfer wynebau siop traddodiadol***

2.4.19 Mae'r wyneb siop traddodiadol yn ffurfio 'ffrâm' ar gyfer yr arddangosfa yn y ffenestr, ac yn cynnwys y ffasgau uwchben, y pren llydan ar waelod fframiau'r ffenestri a philastrau i'r naill ochr. Dylai maint pob cydran ffurfio cyfanwaith cytbwys. Fe all y fynedfa i'r adeilad fod yn y canol neu ar un ochr gan ddibynnu ar led yr eiddo dan sylw. Dylid cadw ac atgyweirio grisiau addurnol mewn pyrth cilfachog. Dylai bod mowldin cornis ar ben y ffasgau a dylai fod consol neu gorbel ar yr ochrau i gynnal y pilastrau. Bydd teils ar waelod y fframiau ffenestri'n fodd o atal dŵr ac yn ychwanegu manylyn traddodiadol.

2.4.20 Dylid diogelu neu atgyweirio unrhyw wynebau siop traddodiadol, neu gydrannau ohonynt sy'n dal i fodoli, lle bynnag bo hynny'n bosibl. Mae'n bosibl bod nodweddion gwreiddiol wedi'u cuddio dan wynebau mwy diweddar. Os yw wyneb siop wedi diflannu'n llwyr ond bod tystiolaeth ffotograffig ar gael o'r dyluniad gwreiddiol, yna llunio replica manwl fyddai'r cam mwyaf priodol. Os nad oes tystiolaeth o'r gwreiddiol yn bodoli, byddai modd defnyddio dyluniad modern sy'n dilyn egwyddorion y 'fframio' gwreiddiol.

2.4.21 Lle mae adeiladau ar wahân wedi cael eu cyfuno i ffurfio un uned, dylid sicrhau bod pob adeilad yn cadw ei wyneb arbennig er mwyn cynnal rhythm a chydbwysedd y strydlun. Ni ddylid ymestyn yr un wyneb ar draws yr holl unedau. Dylid is-rannu'r ffenestr yn fertigol er mwyn cynnal cyfranedd nodweddiadol yr adeilad a'r cyd-destun.

***Wynebau, arwyddion, canopïau a chysgodlenni***

2.4.22 Mae maint a chyfranedd yr wyneb yn gydran allweddol bwysig o gymeriad a gwedd gyffredinol blaen y siop. Yn gyffredinol, ni ddylai'r astell dywydd fod yn ddyfnach na 400mm a dylai fod cryn dipyn islaw lefel ffenestri'r llawr uchaf neu ffenestri crwm. Dylid llythrennu â llaw neu osod llythrennau unigol mewn arddull syml, ac yn gyffredinol ni ddylent fod yn fyw na 225mm o uchder. Dylid osgoi arwyddion

math bocs, persbecs neu blastig. Mae arwyddion sydd wedi'u dylunio'n ofalus ac yn grefftus yn gallu bywiogi'r strydlun, er bod symbolau fel rheol yn fwy effeithiol nag ysgrifen. Dylid annog y defnydd o gysgodlenni a chanopïau heb ysgrifen arnynt, a'r rheiny o leiaf 2.1 metr uwchlaw lefel y ddaear.

***Goleuadau***

2.4.23 Dylid osgoi goleuadau sy'n gysylltiedig ag arwyddion o fewn yr ardal gadwraeth. Wedi ystyrieth fanwl, mae'n bosibl y caniateir goleuadau sy'n taro ar i lawr neu olau cynnil ar arwydd crog.

**Peintwaith**

2.4.24 Tra bod stucco a rendr bob amser wedi'u peintio neu liwio, anaml iawn y byddai hynny'n digwydd i frics, cerrig a theils. Dylid peintio gwaith pren mewn lliwiau cryf, tywyll, gan osgoi lliwiau llachar a / neu gyferbyniadau cryf. Dylid peintio gwaith haearn yn ddu, gwyrdd tywyll neu efydd-biws dwfn. Yn gyffredinol, fe fydd defnyddio ychydig o liwiau yn fwy llwyddiannus ac yn creu edrychiad mwy cydlynol a chynnil. Mae gan rai o'r gwneuthurwyr paent mawr liwiau treftadaeth arbennig gan gynnwys Dulux, Farrow a Ball a Crown, sy'n fan cychwyn da i'r gwaith o ddewis lliwiau. Cynghorir perchenogion i ymgynghori gyda swyddogion yr ACLl i sicrhau bod lliwiau addas yn cael eu dewis i adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth.

***Waliau terfyn a rheiliau***

2.4.25 Er bod yr adeiladau yn ardaloedd manwerthu canol y dref yn gyffredinol wedi'u hadeiladu'n dynn i gefn y palmant, ac felly nad oes angen unrhyw derfyn, mewn llawer o'r ardaloedd oedd, neu sy'n cael eu defnyddio at ddibenion preswyl a masnachol mae waliau terfyn a rheiliau'n hynod o bwysig gan eu bod yn cyfrannu at gymeriad ac ansawdd cyffredinol y strydlun. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau nad yw waliau terfyn a rheiliau'n cael eu tynnu a'u dymchwel er mwyn gwneud lle i barcio ceir ar dir yr adeilad.

**2.5 Polisïau ar gyfer datblygiad newydd o fewn Ardaloedd Treftadaeth**

2.5.1 Cymharol ychydig o ddatblygiadau newydd sydd wedi digwydd yn yr Ardal Gadwraeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Disgwylir, yn y dyfodol, y daw i law raglenni adfywio sy'n annog ailddatblygu sensitif a phriodol o'r safleoedd hynny sydd ar hyn o bryd yn niweidiol i gymeriad ac ansawdd yr ardal.

2.5.2 Yn gyffredinol, lle cynigir datblygiad newydd a / neu estyniadau, mae'n bwysig eu bod yn dilyn egwyddorion cadarn dylunio trefol, yn ogystal â manylion priodol

mewn perthynas â’r cyd-destun hanesyddol. Dylai holl ddatblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod yn:

- Cynnal ac atgyfnerthu patrwm arbennig datblygiad traddodiadol, gan gynnwys patrymau stryd, mannau agored a choed, terfynau plot a mathau o derfynau;
- Ystyried llinellau adeiladu presennol a chyfeiriadaeth unrhyw ddatblygiad sydd yno eisoes;
- Ymateb i rythm a dyluniad israniad y strydlun ac adeiladau unigol yn nhermau bylchau ac agoriadau sy’n ymrannu’r ffasâd;
- Atgyfnerthu cymeriad a graen arbennig ardal nodwedd canol y dref, trwy ddeall y mathau ac arddulliau o adeiladau a geir yno, ynghyd â’u nodweddion a’u deunyddiau. Dylid osgoi datblygiadau pastiche sy’n ceisio efelychu’n arwynebol nodweddion hanesyddol mewn adeiladau newydd;
- Parchu maint a graddfa’r adeiladau cyfagos. Mae’n hanfodol sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn gwrthdaro gydag adeiladau sydd yno eisoes o ran uchder, lefelau’r lloriau, maint y ffenestri a drysau, maint cyffredinol a siâp y toeon;
- Cynnal a chadw golygfeydd allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, i mewn i’r Ardal a hefyd allan o’r Ardal; a
- Lle bo hynny’n bosibl, cyfyngu ar effaith gweledol cerbydau wedi’u parcio a darpariaeth mannau parcio ceir ar y strydlun a thirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.

2.5.3 Lle y bwriedir greu datblygiad newydd mewn ardaloedd sydd gerllaw’r Ardal Gadwraeth, fe fydd yr un mor bwysig rhoi gofal ac ystyriaeth i effaith y dyluniad a’r manylion. Lle bo hynny’n briodol, dylai pob datblygiad newydd barchu’r egwyddorion a restrir uchod, gan roi sylw arbennig i:

- Sicrhau bod y datblygiad newydd yn parhau gyda’r raddfa, ffurf a deunyddiau lleol er mwyn atgyfnerthu cymeriad pensaernïol arbennig y cyd-destun cyfagos;
- Ystyried effaith y datblygiad newydd ar olygfeydd allweddol; a
- Sicrhau bod cynlluniau ffyrdd a threfniadau parcio newydd yn effeithio cyn lleied â phosibl ar ansawdd strydluniau’r ardal. Mae angen cynlluniau, dyluniadau a thirlunio sensitif i gyfyngu ar y defnydd o darmac ac ar y rhesi o geir wedi’u parcio; ac

2.5.4 Mae’n bosibl y bydd dyluniadau cyfoes o ansawdd uchel yn briodol i’r Ardal Gadwraeth, ond rhaid gofalu nad oes unrhyw ddatblygiadau anghydnaws o

ansawdd isel.

# 3. Canllawiau penodol ar gyfer adeiladau, safleoedd arwyddocaol a thir y cyhoedd

## 3.1 Dyluniad tir y cyhoedd

3.1.1 Mae nodweddion amrywiol Abergwaun yn adlewyrchu hanes a datblygiad arbennig gwahanol ardaloedd, a hefyd eu maint, lleoliad, cynllun a phatrymau defnydd, boed yn hanesyddol neu'n gyfoes. Mae trin yr ardaloedd rhwng yr adeiladau yn hanfodol bwysig i ansawdd a chymeriad cyffredinol ardal, a dylid dilyn egwyddorion dylunio trefol cadarn. Dylid rhoi sylw i'r materion penodol canlynol:

- Cyd-destun – rhaid gwerthfawrogi lleoliad a hunaniaeth ardal, ynghyd â defnyddio deunyddiau a manylion priodol i ymateb i, ac i atgyfnerthu, cymeriad lleol y man dan sylw.
- Creu gofodau a mannau – mae natur agored neu gaeedig gofod, ynghyd â'i faint, ffurf a graddfa, yn helpu i roi cymeriad a hunaniaeth i'r man, ac yn atgyfnerthu materion fel diogelwch, sicrwydd, cysur, amrywiaeth a diddordeb.
- Annog gweithgaredd - mae wynebau blaen sionc yn helpu i ysgogi gweithgaredd a bywiogrwydd ar y strydoedd yn ogystal â sicrhau goruchwyliaeth naturiol o ofod neu stryd.
- Amrywiaeth a diddordeb – fel yr adeiladau mewn strydlun, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i diroedd y cyhoedd o ran cysondeb ac amrywiaeth, er mwyn creu ystod o gyfleoedd a lleoliadau ar gyfer defnyddwyr a gwahanol grwpiau cymdeithasol.

3.1.2 Uno yn hytrach na chystadlu gyda'r amrywiaeth eang o ddeunyddiau a dyluniadau a ddefnyddir ar yr adeiladau ddylai fod y nod er mwyn llunio tiroedd cyhoeddus syml a threfnus. Wrth gwrs, mae sicrhau newidiadau mawr i'r dref yn afrealistig yn y tymor byr, ond dylid ffurfio strategaeth tymor byr, tymor canolig a thymor hir cyfannol ac integredig sy'n datgan y weledigaeth ar gyfer yr ardal.

# 4. Argymhellion Rheoli

## Gwneud penderfyniadau gan gynnwys rhestriad/rhestriad lleol, newidiadau i ffiniau a Chyfarwyddiadau Erthygl 4

### 4.1 Rhestru lleol yn yr Ardal Gadwraeth

4.1.1 Pwrpas dynodi Ardal Gadwraeth yw darparu gwarchodaeth ychwanegol ar gyfer yr adeiladau niferus nad oes ganddynt nodweddion unigol sy'n addas ar gyfer Rhestriad Statudol llawn. Mae'r eiddo canlynol a'r grwpiau canlynol o adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth wedi'u nodi yng Ngwerthusiad yr Ardal Gadwraeth fel bod yn anrhestredig ond yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal gadwraeth a gellid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys ar restr leol:

- 70 a 72 Y Stryd Fawr
- 56 i 60 Y Stryd Fawr
- 2 Y Stryd Fawr
- Institiwt Eglwys y Santes Fair
- 16 Kensington Gardens
- Bwthyn Bach, 2 Y Wesh
- Bethel, Capel y Bedyddwyr Saesneg, Y Wesh

### 4.2 Ailasesu ffiniau'r Ardal Gadwraeth

4.2.1 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Abergwaun yn wreiddiol yn 1976 gyda diwygiadau yn 1992. Mae Gwerthusiad yr Ardal Gadwraeth yn nodi *"er bod cyfiawnhad dros gadw'r mwyafrif o ffiniau'r Ardal Gadwraeth fel ag y maent*, *mae nifer o ardaloedd, fodd bynnag, sydd ddim bellach yn cyfiawnhau'u cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth."*

### 4.3 Cyfarwyddyd Erthygl 4 a Datblygiad a Ganiateir

4.3.1 Gall Cyfarwyddiadau Erthygl 4 gael eu gorfodi gan awdurdodau cynllunio lleol i reoli rhai newidiadau i anheddau a fyddai fel arall yn awtomatig yn 'ddatblygu a ganiateir' dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ac felly heb fod angen caniatâd cynllunio. Defnyddir y rheoli cynllunio ychwanegol hwn yn bennaf lle byddai bygythiad i gymeriad ardal o bwysigrwydd cydnabyddedig.

4.3.2 Mae'r broses ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn mynnu bod rhaid, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) gael ei gyhoeddi, rhoi rhybudd o'r Cyfarwyddyd mewn papur newydd lleol ac yn

uniongyrchol i berchnogion/breswylwyr yr eiddo a gwmpesir gan y Cyfarwyddyd. Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn effeithiol cyn gynted ag y bo'r hysbysiad yn cael ei gyflwyno neu ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae'n dod i ben ar ôl chwe mis oni bai fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi penderfynu ymlaen llaw i barhau â'r rhybudd. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw mae'n rhaid i'r Awdurdod gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a dderbyniwyd o ganlyniad i rybudd cyhoeddus, yn enwedig sylwadau gan unrhyw breswylwyr a pherchnogion o fewn yr ardal a gwmpesir gan y Cyfarwyddyd. Dylid nodi mai dim ond ar gyfer anheddau ac nid eiddo masnachol, mae Cyfarwyddyd o'r fath yn berthnasol, gan nad oes gan ddefnydd masnachol yr un hawliau datblygu ag eiddo preswyl. Mae angen caniatad adeilad rhestredig ar gyfer adeiladau rhestredig ble byddai dymchwel, addasu neu adeiladu estyniad yn effeithio ar ddiddordeb arbennig yr adeilad.

4.3.3 Mae effeithiolrwydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gofyn am arolwg ffotograffig fel gwaelodlin ar gyfer cyflwr hysbys yr eiddo. Rhaid i hwn gael ei ddiweddaru o leiaf bob tair blynedd gan mai dim ond yn erbyn tystiolaeth o newidiadau heb eu hawdurdodi sydd wedi'u gwneud o fewn y pedair blynedd flaenorol y gellir cymryd camau gorfodi.

4.3.4 Ym mis Tachwedd 2015 ystyriwyd Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer datblygu preswyl o fewn Ardal Gadwraeth Abergwaun. Ni fwriedir cyhoeddi Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Ardal Gadwraeth Abergwaun. Bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu os fydd newid yn yr amgylchiadau.

**4.4 Monitro a Gorfodi:**

4.4.1 Bydd angen monitro ac adolygu'r Gwerthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth yn rheolaidd er mwyn cwmpasu newidiadau datblygu ac unrhyw flaenoriaethau a chynigion newydd. Gallai arolwg ffotograffig newydd o'r Ardal Gadwraeth, wedi'i ddyddio, fod yn offeryn allweddol i fonitro newidiadau. Bydd diweddariadau rheolaidd, wedi'u seilio ar wybodaeth am Gynllunio /Adeiladau Rhestredig / GCC yn nodi'r mwyafrif o newidiadau datblygu. Bydd ymchwil hanesyddol pellach o'r Ardal Gadwraeth yn fuddiol. Gellir defnyddio mapiau hanesyddol, lluniadau, paentiadau neu ysgythriadau a'r nifer trawiadol o hen ffotograffau yn sail wybodaeth ar gyfer adnewyddu manwl gywir o eiddo a threfluniau treftadaeth. Nodir darpariaethau ar gyfer monitro ac adolygu yn Rhan 2.

4.4.2 Mae cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os yw'r canlynol yn digwydd:

- Bod yna gofnod ffotograffig dyddiedig o'r eiddo perthnasol at ddibenion tracio unrhyw newidiadau dilynol;
- Bod canllawiau'n cael eu darparu ar gyfer perchenogion cartrefi ynghylch sut mae'r cyfarwyddyd yn effeithio arnynt, gyda chyngor am atgyweirio a newid priodol;

- Bod yr awdurdod lleol yn ymgymryd â monitro rheolaidd ar gyfer cydymffurfiaeth a gorfodaeth briodol;

- Bod yr angen am y cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei adolygu os bydd amgylchiadau'n newid

**4.5  Deall Cadwraeth**

4.5.1 Mae gwybodaeth a dealltwriaeth leol yn gwbl ganolog i reolaeth hirdymor sy'n seiliedig ar gadwraeth.  Mae Cyngor Sir Penfro yn awyddus i sicrhau bod:

• sgiliau cadwraeth priodol ar gael yn yr awdurdod a'r gymuned;
• ymwybyddiaeth a dealltwriaeth briodol o werth ardaloedd cadwraeth;
• safonau cadwraeth yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau diogelu a gwella; a
• bod perchnogion yn deall eu cyfrifoldebau.

4.5.2   Gellir cwrdd â'r amcanion hyn drwy ystod o ganllawiau a rhannu gwybodaeth.

**4.6  Anghenion Adnoddau**

4.6.1  Bydd angen cyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn sicrhau safonau treftadaeth priodol ar gyfer gwariant cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd adeiledig. Yn gyffredinol mae camau gweithredu a chanlyniadau bwriadedig yn fwy tebygol o gael eu gweithredu pan ddarperir cymorth grant. Bydd cyfleoedd ar gyfer cyllido yn parhau i gael eu harchwilio a'u hymchwilio drwy weithio mewn partneriaeth gyda meysydd gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.

4.6.2  Bydd gwarchodaeth barhaus o'r Ardal Gadwraeth, sy'n addas i'w chyd-destun treftadaeth, yn gofyn am ragor o ganllawiau polisi a chanllawiau technegol manwl. Mae angen penodol am ganllawiau ychwanegol ynghylch egwyddorion allweddol, gydag enghreifftiau o arfer dda'n cael eu nodi, gan gynnwys gorffeniadau addas, offer trin dŵr glaw, a thriniaethau ffenestri a drysau. Bydd hyn yn annog atgyweirio, amnewid a deunyddiau addas.

**Asesiadau Effaith Cydraddoldeb**

4.7.1  Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol neu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn rhan bwysig o ymrwymiad y Cyngor i hybu cyfle cyfartal i'r holl ddinasyddion. Mae angen i'r Cyngor ystyried amrywiaeth wrth ddatblygu, cyflenwi ac adolygu polisïau a gwasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion ein dinasyddion i gyd. Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn darparu proses systematig o wneud hyn ac felly byddant yn helpu i wella cyflenwi gwasanaethau ac arfer cyflogaeth.  Bydd angen Asesiad Effaith ar gyfer gweithredu unrhyw un o'r polisïau arfaethedig ar gyfer rheoli'r Ardal Gadwraeth.

## 4.8 Cynaliadwyedd

4.8.1 Yn aml mae adnewyddu ac ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli eisioes yn fwy cynaliadwy na dechrau o'r dechrau gyda safle wedi'i chlirio, ac mae'n fwy tebygol o gael llai o effaith ar yr amgylchedd. Mae angen rhoi sylw i gwrdd â gofynion Bioamrywiaeth.

4.8.2  Er bod adeiladau sydd yn Ardal Gadwraeth Abergwaun wedi'u heithrio o gwrdd â gofynion rheoliadau adeiladu ynghylch effeithlonrwydd egni, gellir gwella'r ffactorau hyn heb dynnu oddi ar gymeriad yr adeilad neu'r ardal gadwraeth yn ei chyfanrwydd. Mae meysydd lle gellir gwella effeithlonrwydd amgylcheddol ac effeithlonrwydd egni gydag adeiladau hanesyddol yn cynnwys:

- ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol mewn adnewyddiadau hanesyddol drwy ddylunio priodol;
- Gwelliannau effaith isel i aerdynnrwydd gan ddefnyddio offer atal drafft a llenni trwm o amgylch ffenestri a drysau, blocio simneiau segur a defnyddio gwydr eilaidd neu, er enghraifft, Histoglass – gwydr dwbl tenau (10mm) wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer ei osod i mewn i fframiau pren a metel sydd yno eisoes, heb newid mân fanylion y barrau gwydr;
- lle mae'n briodol, defnyddio technoleg egni adnewyddadwy;
- defnyddio paentiau, farneisiau a gorffeniadau eraill sy'n seiliedig ar ddŵr neu olew naturiol; mae hyn yn rhoi buddion iechyd a buddion cadwraethol;
- atgyweirio'n hytrach nag amnewid nodweddion hanesyddol;
- Defnyddio defnyddiau ynysu naturiol sy'n anadlu ac yn osgoi cynnydd lleithder;defnyddio cyflenwad lleol o lafur a deunyddiau;
- cyfyngu ar wastraff drwy ailddefnyddio deunyddiau, fel llechi, brics a phren; a
- gweithio gyda thîm bioamrywiaeth mewnol Cyngor Sir Penfro i annog dull gwybodus a chadarnhaol o weithio gyda bywyd gwyllt i sicrhau bod pob project yn yr ardal gadwraeth yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ynghylch gwarchod bywyd gwyllt.

4.8.3  Mae cyhoeddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri, *Planning Greener Heritage Projects*[19], Chwefror 2009, yn cynnwys canllawiau a gwybodaeth am amrywiaeth eang o agweddau ar gynaliadwyedd mewn perthynas ag adeiladau treftadaeth a

[19] Ar gael ar wefan HLF, hif.org.uk, yn y Gymraeg a'r Saesneg

darparu adeiladau newydd o fewn cyd-destun treftadaeth. Mae’r wybodaeth yn ymdrin â thestunau megis:

- Effeithlonrwydd ynni;
- Ynni adnewyddadwy;
- Dŵr;
- Deunyddiau adeiladu;
- Gwastraff adeiladu;
- Pridd, gan gynnwys mawn;
- Pren;
- Bioamrywiaeth; a
- Cludiant ymwelwyr.

4.8.4 Gall effeithlonrwydd ynni leihau biliau, lleihau’r defnydd o danwydd ffosil a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yn gyffredinol, fodd bynnag, adeiladwyd adeiladau hanesyddol i anadlu ac maent wedi’u gwneud o ddeunyddiau all gael eu difrodi gan ddulliau modern, neu bydd y cymeriad yn newid yn sylweddol. Mae adnewyddu adeilad yn rhoi’r cyfle i wella effeithlonrwydd ynni. Dylid trafod gyda’r Cyngor Sir unrhyw fesurau fydd yn effeithio ar adeiladau rhestredig neu rai o fewn ardal Cyfarwyddyd Erthygl 4.

4.8.5 Mewn egwyddor dylai’r mesurau effeithlonrwydd ynni wneud cyn lleied o newidiadau â phosibl. Dylai’r deunyddiau a’r dulliau fod yn debyg i wead traddodiadol yr adeilad. Gall dylunio gofalus a rheoli sympathetig helpu i ddiogelu dyfodol cynaliadwy ar gyfer adeiladau hanesyddol.

# 5. Rhaglen Weithredu

## 5.1 Adnoddau ar gyfer gweithredu yn yr Ardal Gadwraeth

5.1.1 Bydd Cyngor Sir Penfro (CSP) yn monitro ac yn adolygu'r adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal yr amgylchedd hanesyddol a rheoli'r Ardal Gadwraeth. Lle mae cyllid priodol ar gael, bydd CSP yn cydlynu gwaith o'r fath gyda'r holl asiantaethau sydd ynghlwm â hyn er mwyn cyflawni'r nodau treftadaeth ac i sicrhau effaith fuddiol dull wedi'i arwain gan gadwraeth, o ymdrin â datblygu economaidd ac adfywio.

5.1.2  Mae rheoli a mewnbwn sgiliau amserol gan yr holl asiantaethau sy'n gweithio yn yr Ardal Gadwraeth yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r rhaglen, sicrhau monitro a gorfodi effeithiol, paratoi canllawiau technegol a hysbysu'r gymuned. Bydd angen cyllid cyfalaf ychwanegol i sicrhau safonau treftadaeth priodol ar gyfer gwariant cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd adeiledig. Mae llawer o'r camau gweithredu a chanlyniadau bwriadedig hyn yn fwy tebygol o gael eu gweithredu pan ddarperir cymorth grant a bydd cyfleoedd ar gyfer cyllido'n parhau i gael eu harchwilio a'u hymchwilio drwy bartneriaeth â meysydd gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.

## 5.2 Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu

5.2.1 Nodir y camau gweithredu canlynol ar gyfer gweithredu buan i hybu'r ymwybyddiaeth o gadwraeth a chyflawniadau cadwraeth yn Ardal Gadwraeth Abergwaun:

**Polisi a Strategaeth Cynllunio**:

- Cyngor Sir Penfro i fabwysiadu'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth

**Cyfranogiad y gymuned:**

- Hyfforddi a Datblygu Staff Cadwraeth;
- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o gadwraeth;
- Datblygu gwefan Gadwraeth CSP;
- Cyhoeddi Bwletin(au) Cadwraeth; a
- Sicrhau bod y Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth ar gael yn lleol.

**Mesurau Cynllunio:**

- Cwblhad o'r Rhestr Leol ddrafft i fod yn sail wybodaeth i'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd;
- Gweithredu Strategaeth Adeiladau mewn Perygl ar gyfer yr Adeiladau Rhestredig hynny sydd mewn perygl neu dan fygythiad; a

- Nodi Ardaloedd sy'n Sensitif yn Archeolegol, fel y bo'n briodol.

**Fframwaith ar gyfer Safonau Dylunio:**

- Paratoi rhaglen ar gyfer paratoi nodiadau canllawiau cynllunio ychwanegol ar faterion cadwraethol;
- Sicrhau bod cyfleoedd am fesurau gorfodi, a'u pwysigrwydd, yn cael eu deall a'u gweithredu ledled Cyngor Sir Penfro;
- Hyrwyddo Nodiadau Canllawiau Cynllunio a 'Cynnal a Chadw!' Cadw ar y wefan; a
- Paratoi briffiau datblygu sy'n benodol i safle, lle mae'n briodol.

**5.3 Monitro**

5.3.1 Dylid monitro a chofnodi cynnydd gweithredu argymhellion y Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth.

**5.4 Adolygiad Ffurfiol**

5.4.1 Dylid adolygu'r ddogfen hon bob pum mlynedd o ddyddiad ei mabwysiadu'n ffurfiol. Bydd angen ei hasesu yn erbyn Deddfwriaeth, a pholisi cenedlaethol a lleol sy'n weithredol adeg yr Adolygiad. Dylai'r adolygu gwmpasu'r canlynol:

- Arolwg o'r Ardal Gadwraeth gan gynnwys arolwg ffotograffig llawn i gynorthwyo camau gorfodi posibl;
- Asesu i ba raddau mae argymhellion wedi cael eu gweithredu, a pha mor llwyddiannus y bu hyn;
- Nodi unrhyw faterion newydd y mae angen ymdrin â nhw, sy'n gofyn am weithredu pellach neu welliannau;
- Llunio adroddiad cryno yn manylu ar ganfyddiadau'r arolwg ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen; a
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu.